ISSN 2053-5171
Rhifyn 18
Gwanwyn 2021

# Herio Materion Crefyddol

**James M. M. Francis**
ar Gweinidogaeth Gyhoeddus Iesu
Rhan 1: Geiriau a Gweithredoedd

**James M. M. Francis**
ar Gweinidogaeth Gyhoeddus Iesu
Rhan 2: Gwrthodiad ac Ymatebion

**L. Philip Barnes**
ar Beirniadaeth Hume o'r Ddadl
o (i) Ddyluniad Rhan 1

**L. Philip Barnes**
ar Beirniadaeth Hume o'r Ddadl
o (i) Ddyluniad Rhan 2

**Leslie J. Francis ac Andrew Village**
ar Ystyried Effaith Covid-19 ar
Gristnogaeth yn y DU:
Cyfle neu Her?

**Leslie J. Francis ac Andrew Village**
ar Asesu Effaith Covid-19 ar
Gristnogaeth yn y DU:
Cyfle neu Her?

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch. Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

# Herio Materion Crefyddol

## Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

## Rhifyn 18 Gwanwyn 2021

## Cynnwys

Gweinidogaeth Gyhoeddus Iesu Rhan 1: Geiriau a Gweithredoedd 2
James M. M. Francis

Gweinidogaeth Gyhoeddus Iesu Rhan 2: Gwrthodiad ac Ymatebion 9
James M. M. Francis

Beirniadaeth Hume o'r Ddadl o (i) Ddyluniad Rhan 1 15
L. Philip Barnes

Beirniadaeth Hume o'r Ddadl o (i) Ddyluniad Rhan 2 22
L. Philip Barnes

Ystyried Effaith Covid-19 ar Gristnogaeth yn y DU:Cyfle neu Her? 30
Leslie J. Francis ac Andrew Village

Asesu Effaith Covid-19 ar Gristnogaeth yn y DU: Cyfle neu Her? 37
Leslie J. Francis ac Andrew Village

**Golygydd**
Yr Athro Jeff Astley (Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Prifysgol Durham)

**Golygydd Cymraeg a Golygydd Rheolaethol**
Dr Tania ap Siôn (Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

**Ymgynhorwyr Golygyddol**
Y Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)
Dr Ian Jones (St Peter's Saltley Trust)
Libby Jones (Canolfan San Silyn, Wrecsam)
Yr Athro William K. Kay (Prifysgol Caer)
Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Warwick)
Phil Lord (Arweinydd System, GwE)
Yr Athro Peter Neil (Prifysgol yr Esgob Grosseteste)
Yr Athro Stephen Parker (Prifysgol Worcester)
Y Gwir Barchedig Ddr Walker (Prifysgol of Warwick)

Dyluniwyd gan Phillip Vernon
Cyfieithiad gan Sioned Jones

**Herio Materion Crefyddol**
Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn
Llys Onnen
Abergwyngregyn
Gwynedd
LL33 0LD
Ffôn: 01248 680131
E-bost: smc.taniaapsion@gmail.com
http://www.st-marys-centre.org.uk/

St Peter's Saltley Trust
Grays Court
3 Nursery Road
Edgbaston
Birmingham B15 3JX
Telephone 0121 427 6800
E-bost: director@saltleytrust.org.uk
https://www.saltleytrust.org.uk/

Canolfan San Silyn
Tŷ'r Coleg
Rhes y Deml
Cymru,
Wales
LL13 8LY
E-bost: tania.apsion@bishopg.ac.uk
https://stgilescentre.org/cy/

Caiff fersiwn Gymraeg *Herio Materion Crefyddol* ei noddi a'i reoli gan Ganolfan San Silyn Wrecsam – https://stgilescentre.org

Mae *Herio Materion Crefyddol* yn gyfnodolyn ar-lein, mynediad agored am ddim a luniwyd i gefnogi athrawon a myfyrwyr sy'n dilyn Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch, gan ddod ac ysgolheictod ac ymchwil diweddar a pherthnasol o'r Brifysgol i'r ystafell ddosbarth lefel A. Os oes unrhyw bynciau yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn y cyfnodolyn, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yn y rhifyn hwn mae tair erthygl *dwy ran* (er bod pob rhan fwy neu lai yn sefyll ar ei phen ei hun). Mae'r darnau mwy estynedig hyn yn caniatáu delio â phwnc mewn mwy o ddyfnder a manylion, ond ar yr un pryd yn cadw'r hyd arferol i bob rhan. Mae hyn yn galluogi hyblygrwydd i'r myfyriwr a'r athrawon o ran sut maen nhw'n defnyddio'r deunydd. *Byddem yn ddiolchgar i gael adborth (wedi'i anfon at* smc.taniaapsion@gmail.com*) ynghylch a ydych yn hoffi erthyglau hirach fel hyn, yn ogystal â'r syniad o'u rhannu, neu gael mwy o rai byr ym mhob rhifyn.*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 18 Gwanwyn 2021
© James M. M. Francis

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Gweinidogaeth Gyhoeddus Iesu
# Rhan 1: Geiriau a Gweithredoedd

James M. M. Francis

*Mae'r erthygl ddwy ran hon yn cyflwyno adroddiad beirniadol o'r hyn a wyddom am weinidogaeth Iesu o'i fedydd tan ei groeshoeliad. Ni cheir awgrym o drefn hanesyddol i'r digwyddiadau hyn a gan mwyaf mae'n dibynnu ar dystiolaeth yr Efengylau Synoptig. Fodd bynnag, mae'r efengylau'n dangos y gallwn wybod llawer am natur hanesyddol gweinidogaeth Iesu. Mae rhan un yn edrych ar ei bregethu a'i ddysgeidiaethau, ei wyrthiau a'r enwau roedd yn cael eu galw.*

*Cysylltiadau â'r fanyleb:*
*AXA Adran A: Cristnogaeth: Duw • Monotheistiaeth Gristnogol: ystyr ac arwyddocâd y gred mai Iesu yw mab Duw*
*EDEXCEL Papur 3: Astudiaethau'r Testament Newydd: 1. Cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol a chrefyddol y Testament Newydd 1.1 Proffwydoliaeth am y Meseia; 2 Testunau a dehongliadau o berson Iesu, 2.2 Teitlau Iesu yn yr efengylau synoptig; 2.3 Gwyrthiau ac arwyddion; 5. Testunau a dehongliadau: Teyrnas Dduw*
*OCR Datblygiadau mewn meddwl Cristnogol (H573/03): 2. Sylfeini, Person Iesu Grist, awdurdod Iesu Grist fel Mab Duw*

**Cyflwyniad**

Ceir crynodeb byr o fywyd a gwaith Iesu mewn pregeth gan Pedr a gofnodir yn yr Actau 10:36-39. Mae'n dweud fod Iesu wedi dechrau ei waith yn fuan ar ôl cenhadaeth Ioan Fedyddiwr (er bod y Bedwaredd Efengyl yn eu gorgyffwrdd am gyfnod, ac mae Luc yn cofnodi cof am ieuenctid Iesu yn 2:41-52); ei fod yn gweithio allan o Galilea; ei fod yn bregethwr, yn iachawr ac yn bwrw cythreuliaid; bod ei genhadaeth wedi mynd ag ef i Jerwsalem (fwy nag unwaith mae'n debyg, yn ôl Efengyl Ioan) a'i fod wedi cael ei groeshoelio.

Cof hanesyddol yw hwn yn sicr. Mae'n wir fod yr eglwys wedi ail-weithio traddodiad Iesu yn y broses drosglwyddo y tu ôl i'r Efengylau ond mewn ffordd a oedd yn cadw atgofion gwirioneddol am ei eiriau a'i weithredoedd. Mae ysgolheictod diweddar wedi dadlau fod y traddodiadau am weinidogaeth Iesu (ar lafar ac yn ysgrifenedig) wedi dechrau cael eu casglu hyd yn oed yn ystod ei fywyd (Dunn, 2003, tt. 173-254).

**Pregethu Teyrnas Dduw**

Mae Marc yn rhoi crynodeb o neges Iesu yn 1:15 (cf. Mathew. 4:23 a Luc 4:43): 'Y mae'r amser wedi ei gyflawni ac y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Edifarhewch a chredwch yr Efengyl'.

Dywed Luc 3:23 fod Iesu tua thri deg oed pan ddechreuodd ei weinidogaeth (gan roi llinach i ni, cf. Mathew.1:1ff). Eto, mae Luc yn 4:16-21 yn disgrifio'r hyn y mae Sam Wells yn ei alw yn 'Maniffesto i Nasareth (Wells, 2015), sy'n adleisio arddull proffwyd (ddim yn annhebyg i Ioan Fedyddiwr, 3.1ff, y mae'n rhaid bod Iesu wedi ei gydnabod drwy gael ei fedyddio ganddo). Ceir datganiad pellach yn Luc 13:32.

Mae'r ymadrodd 'Teyrnas Dduw' , wrth wraidd neges Iesu. Mae'r gair 'teyrnas' yn ei gefndir Iddewig yn cyfeirio nid at enw (fel yn y Gymraeg) ond at syniad llafar o Dduw yn rheoli fel brenin. Yn amser Iesu roedd gobaith cryf iawn am gysylltiad tiriogaethol rhwng rheolaeth Duw a'r tir, ond nid oes ystyr tiriogaethol i'r ymadrodd gan Iesu. Mae R. T. France yn gwneud pwynt grymus pan ddywed na ddylem fyrhau'r ymadrodd 'Teyrnas Dduw' i 'Teyrnas' yn unig (er ei bod yn anodd peidio â gwneud hyn). 'Os yw "Teyrnas" Dduw yn golygu "Duw yn Frenin", yna mae byrhau i "y Deyrnas" yn rhoi'r sylw ar yr un anghywir o'r ddau air' (France, 1990, t. 13). Mae gwreiddiau carennydd Duw yn mynd yn ôl i'r Hen Destament (cf. y salmau brenhinol, Salm. 2; 20; 21; 45; 72; 101; 110; 132), ac roedd Iddewiaeth yn bwrw'i gobaith ymlaen at oes pan fyddai Duw yn sofran (Eseia. 24:23; Obadeia 21; Sech.14:9ff.).

Nid yw'r Deyrnas yn natganiad Iesu yn gyfan gwbl bresennol nac yn gyfan gwbl yn y dyfodol; realiti ydyw 'yn y broses o'i gwireddu ei hun', fel petai. Yn Marc 1:14 mae dweud fod y Deyrnas 'wedi dod yn agos' yn rhoi'r syniad ei bod ar fin cyrraedd. Gall adleisio pregethu Ioan Fedyddiwr, a soniodd hefyd am agosrwydd y Diwedd, ond mae honiad ymhlyg yn neges Iesu fod y Deyrnas yn ddigon agos i fod wir yn bresennol.

Yr ymateb (yn Marc 1:15) yw 'edifarhewch a chredwch yr Efengyl, h.y. y newyddion da am y Deyrnas y mae Iesu'n ei gyhoeddi. Yn ôl Luc 4:18ff, roedd hyn yn cael ei grynhoi fel 'newyddion da' fel yn ôl Eseia 61:1ff. Roedd yn cynrychioli rhywbeth newydd ac o leiaf, yn ei ddull, roedd yn eithaf annisgwyl. Roedd y neges hon yn cael ei mynegi ar ffurf gweithredu'n broffwydol, sef bod Iesu'n byw'r peth drwy gael ei adnabod fel cyfaill y pechaduriaid (Mth.11:19/Luc 7:34; cf. Luc 15:1ff a 19:7).

**Dysgu mewn damhegion**

Roedd Iesu'n dysgu pobl (yn cynnwys menywod) yn agored. Mae ei arddull yn debyg mewn llefydd i un y rabbi confensiynol ac eto mae'n wahanol. Caiff ei alw'n Rabbi (Marc 9:5; 10:51; 11:21; 14:45) a daw pobl eraill ato i ofyn am ei ddehongliad o'r Gyfraith. Mae dysgeidiaeth Iesu yn ddyledus i raddau helaeth i draddodiad doethineb y traddodiad Iddewig sy'n ymestyn yn ôl fwy na mil o flynyddoedd o'i flaen. Mae'n rhannu cysylltiad â doethineb mewn tair ffordd arbennig: (i) arddull epigramatig, (ii) moesau yn seiliedig ar sylwi personol a (iii) gwersi sy'n cael eu tynnu o fywyd a byd Natur. Mae hyn i gyd yn gefndir i'w ddamhegion am y Deyrnas sy'n amrywio o wirebau byr fel Mth. 5:13 ('os cyll yr halen ei flas, â pha beth yr helltir ef?'), Luc 17:37 ('lle bydd y gelain, yno yr heidia'r fwlturiaid') a Mth. 8:22 ('gad i'r meirw gladdu eu meirw eu hunain), i straeon mwy cymhleth fel y Mab Colledig (Luc 15:11-32). Mae'r damhegion yn adnodd gwerthfawr ar gyfer adnabod cyd-destun cymdeithasol ei ddydd (Gooder, 2020, tt. vii-xii). Y damhegion, ynghyd â'r casgliad o gyfarwyddiadau yn y Bregeth ar y Mynydd (Mathew) a'r Bregeth ar y Gwastadedd (Luc), yw prif sylwedd ei athrawiaeth. Yn ychwanegol at hyn mae ei ddysgeidiaeth ar fod yn ddisgybl trwy wasanaethu a chario'r groes (Marc 10:45).

Ar y llaw arall nid yw Iesu'n cael ei gysylltu ag unrhyw gefndir ysgolheigaidd ac mae'n ymddangos (yn anarferol iawn) iddo ei ddysgu ei hun. Felly mae'r cwestiwn yn codi, o ble daeth awdurdod Iesu. Ac mae ei deulu ei hun yn mynegi amheuon amdano (Marc 3:31-35).

Mae damhegion Iesu yn cynnig braslun darluniadol o'i ddealltwriaeth o'r Deyrnas. Ceir damhegion am ddyfodiad y Deyrnas (e.e. Crwyn Gwin a Chlytiau (Marc 2:21ff), lle mae'r Deyrnas yn newydd ac ni ellir ei chyfyngu o fewn yr hen un); ceir damhegion sy'n ymateb i'r neges (e.e. Trysorau a Pherl (Mth. 13:44ff), am ba mor werthfawr yw'r Deyrnas) a damhegion am yr argyfwng a ddaw yn sgil y Deyrnas (e.e. y Genethod Call a Ffôl) (Mth. 25:1ff)).

**Gwyrthiau**

Roedd cyflawni gwyrthiau hefyd yn rhan o weinidogaeth Iesu a gofnodwyd. Mae'r ffaith fod Iesu'n cael ei gydnabod fel rhywun â phwerau i iachau bron yn cael ei dderbyn yng nghymdeithas ei ddydd, ond nid oedd hynny'n ei wneud yn unigryw – credid bod eraill â doniau tebyg hefyd. Roedd gwneud gwyrthiau yn yr Hen Fyd yn cael ei gysylltu â phobl o awdurdod (cf. Alecsander Fawr, Vespasian, Apolonnius o Tyana). Roedd proffwydi yn yr Hen Destament yn cyflawni gwyrthiau (ee. Exodus 14:21ff; 16:4ff; 1 Brenhinoedd 17:1ff; 19:1ff) ac roedd rhai o gyfoeswyr Iesu (e.e. Honi y Tynnwr Cylchoedd, cf. Hanina ben Dosa) yn cael eu priodoli fel rhai oedd yn gwneud gwyrthiau. Bron na allem ddweud, o ystyried awdurdod Iesu, y byddai i'w ddisgwyl fod ganddo bwerau gwyrthiol. Mewn un stori mae un o'r cenedl-wragedd yn herio Iesu i iachau ei merch, gan estyn allan y tu hwnt i gyfyngiadau Iddewiaeth (Marc 7:24-30). Yn yr eglwys gynnar, roedd gwyrthiau (iachau a bwrw cythreuliaid allan) yn cael eu hystyried fel tystiolaeth o ddoniau'r Ysbryd (1 Cor. 12:7). Gallem ddweud fod gwyrthiau Iesu yn disgyn i gategori 'proffwydoliaeth a gyflawnwyd'. Gall un wyrth (melltithio ffigysbren, Marc 11:12ff) fod wedi bod yn ffordd o wneud dymuniad symbolaidd yn llythrennol (Marc 13:28ff). Drwyddi draw, mae'r 'gwyrthiau Natur' (cerdded ar ddŵr, tawelu storm, lluosogi torthau, newid dŵr yn win) i gyd yn tynnu'n drwm ar symbolaeth a delweddaeth. A wnaeth Iesu'r pethau hyn, ni allwn ddweud o safbwynt hanesyddol. Wrth gwrs, mae'n dealltwriaeth ni am afiechyd yn wahanol i'r hyn oedd ar gael y pryd hwnnw, a byddai diagnosis meddygol wedi bod yn amhenodol, yn enwedig o ran salwch meddwl oedd yn aml yn cael ei weld fel cael eich meddiannu gan gythreuliaid. Eu cysylltiad â gwyrthiau'r Deyrnas sy'n rhoi i wyrthiau Iesu, fel y maen nhw, eu hystyr.

**Teitlau**

Byddai asesiad bras o Iesu gan eraill drwy ei eiriau a'i weithredoedd yn dangos ei fod yn cael ei ystyried yn broffwyd. Mae'r teitl hwn ymhlith yr hynaf a gofnodwyd yn nhraddodiad yr Efengyl, gweler Marc 8:27ff a Marc 9:1ff, a'r cwestiwn a ofynnwyd i Ioan Fedyddiwr yn Ioan 1:21: 'Ai ti yw'r Proffwyd?' Yma, mae'r fannod benodol (Y Proffwyd) yn dwyn i gof y disgwyliad eschatolegol o ddychweliad y proffwyd fel nodwedd o'r diwedd (cf. Joel 2:28), lle'r oedd disgwyl i broffwyd fel Moses neu Elias ddychwelyd ac i ragflaenu dyfodiad y Meseia neu disgwylid mai'r Meseia ei hun oedd Proffwyd y Diwedd yma. Yn Ioan 6:14 mae'r tyrfaoedd yn penderfynu mai Iesu yw'r proffwyd hwn, er bod Mth.21:11 yn dweud ei fod yn fwy 'y proffwyd . . . o Nasareth', cf. Luc 7:16 'Y mae proffwyd mawr wedi codi yn ein plith'.

Mae'r traddodiad o fod yn broffwyd (os nad y proffwyd) yn cynnwys cyfeiriad nid

yn unig at athrawiaeth Iesu ond at ei weithredoedd (gan y gallai proffwydi fel Elias feddu ar bwerau arbennig) – felly mae Marc 6:5-6 yn cysylltu athrawiaeth Iesu â'i weithredoedd grymus (cf. Mth.12:28/Luc 11:20: 'ond os trwy Ysbryd/bys Duw . . .). Yng nghyd-destun y darn olaf hwn, mae'r drafodaeth am Iesu fel proffwyd yn codi'r pwnc o awdurdod Iesu – felly Marc 6:4 (Mth. 13:57; Luc 4:24). Mae'r darn hwn am broffwyd heb anrhydedd ond yn ei fro ei hun, er ei bod yn ddihareb, tystio i'r ffaith fod Iesu yn derbyn o leiaf rôl proffwyd fel disgrifiad o arddull ei weinidogaeth ac na ddichon i broffwyd farw y tu allan i Jerwsalem (Luc 13:33; cf. Mth.23:37/Luc 13:34 yn ei alarnad dros Jerwsalem). Ond hyd yn oed os yw Iesu yn gweithredu mewn ffyrdd proffwydol (Mth. 5:17-20), nid yw'n glynu wrth y fformiwlâu proffwydol arferol fel 'felly y dywed yr Arglwydd'. Mae ei arddull weinidogaethau yn baradocsaidd o uniongyrchol ('dywedwyd wrthych ond rwyf i'n dweud wrthych, Mth. 5:21ff).

O dystiolaeth yr Efengylau a oes modd dweud unrhyw beth am ddealltwriaeth Iesu amdano'i hun? Gallwch ddyfynnu ei ymdeimlad o ddibyniaeth arbennig ar Dduw yn y cyfeiriad cyson bron at Dduw fel Tad (heblaw Marc 15:34). Mae ei gyfarchiad i Dduw fel 'Abba', er yn bersonol, fel pe'n cadw (yn wahanol i 'Dad') cyfarchiad oedolyn aeddfed. O'r teimlad hwn o ddibyniaeth llifa thema'r ufudd-dod sy'n gysylltiedig â'r teitl 'mab Duw'. Nid yw hwn yn awgrymu duwdod o reidrwydd ond teimlad o ufudd-dod ffyddlon, fel mab yn gwneud ewyllys ei dad, hyd yn oed i naratif ingol Gethsemane (Marc 14:32-50) a'r lef druenus (Marc 15:34, gweler isod). Yng nghyd-destun gwerthoedd Môr y Canoldir mae hwn yn safbwynt hollbwysig ac mae'n ymddangos yn hanesion bedydd Iesu, y temtasiynau, y Gweddnewidiad a'r Dioddefaint. Yn yr hanesion hyn mae datblygiad sicr o werthfawrogiad yr eglwys o Iesu fel mab ufudd. Ond fel teitl a briodolir iddo gan eraill, mae'n adlewyrchu teimlad Iesu ei hun o ufudd-dod i Dduw a dibyniaeth arno.

Mae sôn am fabolaeth yn cysylltu hefyd â mater anodd yr ymadrodd 'Mab y Dyn'. Nid yw'n sicr a oedd hwn wir yn deitl ac mewn rhai achosion gallai fod yn ddim mwy na chyfeiriad anuniongyrchol ato'i hun fel bod dynol, yn golygu 'Fi, mi'. (cf. Gwyddeleg 'Yer Man'). Yng nghred Iesu y byddai Duw yn ei gyfiawnhau ef a'i genhadaeth, cyfeirir at fod nefol yn 'un fel mab dyn' fel yn Daniel 7:9-13. Dywedir fod Iesu'n cyfeirio at ddyfodiad Mab y Dyn fel cyfiawnhad (Marc 8:38=Mth. 10:32-33; cf. Luc 12:8-9; Marc 13:26=Mth. 24:30/Luc 21:27; Marc 14:62=Mth. 26:64/Luc 22:69). Pan mae Iesu yn cyfeirio at y Mab y Dyn nefol hwn, gwneir gwahaniaeth rhyngddo ef ei hun a Mab y Dyn e.e. Marc 8:38.

Ar y llaw arall, ceir achosion o uniaethu rhwng Iesu a mab y dyn sy'n creu ymdeimlad o ddynoliaeth e.e. Mth.8:20, gostyngeiddrwydd e.e. Mth. 20:18 neu ufudd-dod (gwaseidd-dra) e.e. Marc 10:45 (=Mth. 20:28). O'r darlun eithaf dryslyd hwn ni chafwyd cytundeb yn y ddadl ysgolheigaidd hir am y defnydd o'r ymadrodd 'mab y dyn'. Mae'r broblem yn ddiddorol oherwydd dyma'r un ymadrodd sydd ddim ond yn cael ei ddefnyddio gan Iesu – nid yw'r eglwys yn arddel Iesu fel 'mab y dyn' fel term credoaidd. Ar y lleiaf, gallem awgrymu ei fod yn ymwneud ag ymdeimlad Iesu ei hun o'i genhadaeth a fydd, er gwaethaf (ac yn wir drwy) ei gwendid a'i heiddilwch, yn cael ei chyfiawnhau gan Dduw (Vermes, 2010, tt. 249-250).

Mae'r teitl Meseia (Crist), yr un teitl arwyddocaol a roddir i Iesu gan yr eglwys, yn un y mae'n ei dderbyn yn ochelgar o fewn y cylch dilynwyr sydd

ddim fod i ddweud wrth neb (Marc 8:30-31). Dim ond ar ddiwedd ei weinidogaeth mae'n cael ei gydnabod yn agored, mewn ateb i gwestiwn yr Archoffeiriad (Marc 14:62).

Ond nid drwy'r teitlau yn unig neu hyd yn oed yn bennaf y gallwn fyfyrio ar hunan-ddealltwriaeth Iesu. Yn fwy pwysig yw'r cwestiwn am sut byddai ef wedi deall ei dynged. Byddai cwrs ei weinidogaeth wedi rhoi'r profiad o gael ei wrthod iddo yn ogystal â chael ei dderbyn, a byddai wedi gweld tynged Ioan Fedyddiwr fel canlyniad tebygol posibl i rôl proffwyd. A oedd Iesu'n ystyried ei ddioddefiannau, a ddisgrifir yn gynnar yn hanesion y temtasiynau, fel sgil-gynnyrch ei genhadaeth (rhyw safbwynt 'serch hynny mae'n rhaid cyflawni ewyllys Duw'), neu fel y modd o hyrwyddo'r genhadaeth ei hun? Mae'n anodd dod o hyd i'r ateb (hyd yn oed os daeth yr eglwys i'r ail farn wrth ddatblygu athrawiaeth yr iawn), ond o leiaf gallem awgrymu fod gan thema ufudd-dod fel ffordd o ganfod doethineb (cf. Salm 119; Diarhebion 3:11-12/ Hebreaid 12:3-11) ryw berthnasedd i ffurf gweinidogaeth Iesu. Roedd ei benderfyniad i fynd i Jerwsalem, gyda'i syniad Meseianaidd o fynd i mewn i'r ddinas fel digwyddiad a gynlluniwyd ond yna'n fwriadol yn gadael y don o frwdfrydedd poblogaidd i lithro'i ffwrdd i'w adael yn agored i benderfyniadau pobl eraill; roedd hynny hefyd, yn cynrychioli cymryd risg fel rhan angenrheidiol o'i genhadaeth. Gall cysylltu ei fedydd â'i ddioddefaint yn Marc 10:38, cf. Luc 12:49ff, wrth awgrymu gwrthdaro ac argyfwng, hefyd gynrychioli atgof gwirioneddol.

I'r rheini sydd â diddordeb ehangach mewn drama a llenyddiaeth mae Terry Eagleton, yn ei lyfr *Radical Sacrifice* (Eagleton, 2018), yn myfyrio ar Ddioddefaint Iesu o safbwynt carnifal, fel yng ngŵyl afreolus canol gaeaf y Rhufeiniaid, y Saturnalia. I Eagleton, mae'r Wythnos Sanctaidd yn wir yn fath o garnifal lle mae 'lleygwr anadnabyddus' o wlad Galilea yn cael ei groesawu'n gyhoeddus gyda phalmwydd 'dim ond i gael ei groeshoelio ddiwrnodau wedyn o dan y teitl gwatwarus "Brenin yr Iddewon" (O'Brien, 2018). Mae Eagleton yn dadlau ym mhennod 5, 'Kings and beggars' (Eagleton, 2018, tt. 142ff), mai rhyw fath o gyfenwid rolau doniol yw hyn, lle mae'r sawl a groesholir yw Duw mewn cnawd. Yn Efengyl Marc (15:39) mae geiriau'r canwriad mewn ymateb i waedd Iesu ei fod wedi cael ei adael ac yn marw, 'Yn wir Mab Duw (neu mab i Dduw) oedd y dyn hwn' yn dwyn i gof ddechrau'r Efengyl yn 1:1, lle mewn rhai llawysgrifau, mae'r teitl 'mab Duw' wedi'i ychwanegu. Mae Eagleton yn gofyn beth mae teimlad Iesu o gael ei adael yn ei awgrymu am y Deyrnas yr oedd yn ei datgan yn gyhoeddus (1:15)? Mae'n ateb y cwestiwn fod 'y Tad ... yn ddyfnder o gariad yn hytrach na sicrwydd metaffisegol dibynadwy (*an abyss of love rather than a copper-bottomed metaphysical guarantee*). Y Tad ei hun sydd wrth wraidd ffydd Iesu, fel gwrthrych ei ddymuniad, ac yn yr ystyr honno, nid yw wedi cael ei wrthod' (Eagleton, 2018, tt. 39-40).

## Dolenni rhyngrwyd

https://en.wikipedia.org/wiki/Ministry_of_Jesus Ministry of Jesus (Wikipedia)

https://www.bbc.co.uk/news/magazine-35120965?ns_mchannel=email&ns_source=inxmail_newsletter&ns_campaign=bbcnewsmagazine_news__&ns_linkname=na&ns_fee=0 What did Jesus really look like? (Joan Taylor)

https://bibleinterp.arizona.edu/articles/bon368024 Ten things I learnt about Jesus (Helen K Bond, in The Bible and Interpretation)

https://www.youtube.com/watch?v=U-EhIHz3CDc My Soul Glorifies the Lord: Jesus' female disciples (Helen Bond and Joan Taylor, YouTube, 2018)

## Pwyntiau trafod

1. Pam ydych chi'n meddwl na wnaeth Iesu ei ddatgan ei hun yn agored fel Crist/y Meseia yn ystod ei weinidogaeth?
2. Beth allwn ni ddysgu am fywyd yn Nwyrain Agos dyddiau Iesu o'i wyrthiau?
3. Ydych chi'n meddwl fod y wraig o Syroffenicia (Marc 7:24-30) wedi newid agwedd Iesu?
4. O ddysgeidiaeth Iesu, beth ydych chi'n ei weld yn gyffredin â chrefyddau byd eraill?
5. Sut ydych chi'n meddwl y mae neges Iesu a pherson Iesu yn perthyn i'w gilydd?

## Cyfeiriadau

Dunn, J.D.G. (2003). *Jesus remembered: Christianity in the making* (vol. 1). Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.

Eagleton, T. (2018) *Radical sacrifice*. New Haven, Connecticut: Yale University Press.

France, R.T. (1990). *Divine government*: *God's kingship in the Gospel of Mark*. London: SPCK.

Gooder, P. (2020). *The parables of Jesus*. Norwich: Canterbury Press.

O'Brien, G.D. (2018). The crucified Christ isn't a tragic hero. Review of *Radical sacrifice* by Terry Eagleton, *The Christian Century*, August 16.

Vermes, G. (2010). The son of man debate revisited (1960-2010). In *Jesus in the Jewish world* (pp. 236-250). Ed. G. Vermes, London: SCM Press.

Wells, S. (2015). *A Nazareth manifesto: Being with God*. Oxford:Wiley.

*Mae'r Parchedig Ddr James Francis yn ganon amhreswyl yn Eglwys Gadeiriol Durham ac yn gymrawd gwadd yng Ngholeg St John's, Durham. Bu'n uwch ddarlithydd yn Astudiaethau'r Testament Newydd ym Mhrifysgol Sunderland, ac wedyn yn Brifathro Cwrs Gweinidogaeth Leol Ordeiniedig Esgobaeth Durham. Mae ei gyhoeddiadau'n cynnwys golygyddiaeth y gyfres lyfrau* Religions and Discourse *(Peter Lang), llyfr ar blentyndod yn yr hen fyd, darllenydd ar weinidogaeth hunangynhaliol, ac mae'n cyfrannu at eiriaduron Beiblaidd.*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 18 Gwanwyn 2021
© James M. M. Francis

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Gweinidogaeth Gyhoeddus Iesu
# Rhan 2: Gwrthodiad ac Ymatebion

James M. M. Francis

*Mae ail ran y myfyrdod hwn ar weinidogaeth gyhoeddus Iesu yn canolbwyntio ar yr amgylchiadau a arweiniodd at dreial Iesu a'i groesholiad dilynol. Mae'r cyd-destunau hyn yn gyfuniad o'r crefyddol a'r gwleidyddol, na fyddai wedi gallu cael eu gwahanu'n hawdd yn ei ddydd, cyfuniad sy'n dal yr un fath mewn rhai rhannau o'r byd heddiw.*

*Cysylltiadau â'r fanyleb:*
*AXA Adran A: Cristnogaeth: Duw • Monotheistiaeth Gristnogol ac arwyddocâd y gred mai Iesu yw mab Duw*
*EDEXCEL Papur 3: Astudiaethau'r Testament Newydd: 1. Cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol a chrefyddol y Testament Newydd 1.2 Byd y ganrif gyntaf ac arwyddocâd y cyd-destun hwn i fywyd a gwaith Iesu. (c) Y goresgyniad Rhufeinig. (d) Rôl ac effaith y dylanwadau hyn ar ddimensiynau cyfreithiol a moesegol bywyd ym Mhalesteina'r ganrif gyntaf a pherthynas bywyd a gwaith Iesu â'r dylanwadau hyn; 5. Testunau a dehongliad: gwrthdaro, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu*
*OCR Datblygiadau mewn meddwl Cristnogol (H573/03): 2. Seiliau, Person Iesu Grist, awdurdod Iesu Grist fel gwaredwr: rôl Iesu fel gwaredwr y rhai ar y cyrion a'r tlawd, fel y mynegir yn ei: o her i awdurdod gwleidyddol o her i awdurdod crefyddol*

**Cyflwyniad**

Cafodd gweithred broffwydol gyhoeddus Iesu yn mynd i mewn i Jerwsalem adeg y Pasg groeso twymgalon a chwalwyd yn fuan, efallai oherwydd nad oedd y gobaith Meseianaidd wedi ei gyflawni. Byddai hefyd wedi dod ag Iesu i sylw'r awdurdodau Rhufeinig ar adeg arwyddocaol yn ninas orlawn Jerwsalem. Byddai'r weithred a ddilynodd, glanhau'r deml, wedi dieithrio'r awdurdodau Iddewig. Gyda'r cefndir hwn, mae'r gwrthod graddol ar ffordd cenhadaeth Iesu yn cael ei fynegi'n ingol yn y geiriau yn y Swper Olaf dros y bara (ar ddechrau'r pryd bwyd) a'r cwpan olaf o win (gan gymryd mai pryd Gŵyl y Bara Croyw) oedd hwn. Er bod yr union eiriau wedi cael eu datblygu'n litwrgaidd, gallwn amgyffred ystyr clir: 'Hwn yw fy nghorff i chi/Hwn yw fy ngwaed i chi'. Byddai ei

anogaeth bellach 'Gwnewch hyn er cof amdanaf' yn cyfeirio wedyn (fel pe bai ei farwolaeth eisoes wedi digwydd) at ei ddilynwyr yn cofio sut yr offrymodd ei hun yn aberth. Mae'r groes yn cynrychioli i Iesu y cyflawniad mewn arwydd proffwydol o'i ymrwymiad ef i'w achos (ac felly ei barodrwydd i wyneb merthyrdod). Iddo ef, mae'n cynrychioli'r ffordd y bydd Teyrnas Dduw yn cael ei chyflawni. Mae'n arwyddocaol, felly, fod hanesion yr Atgyfodiad yn cyfeirio at ei glwyfau (sydd, fel ymddangosiadau, yn gwahaniaethu'r hanesion hyn o'r Gweddnewidiad), a oedd yn galluogi'r eglwys i ddeall arwyddocâd marwolaeth Iesu.

**Yr ymateb crefyddol Iddewig**

Yn sicr, roedd nodweddion o neges Iesu a allai fod wedi dieithrio eraill yn ogystal â'u denu. Roedd ei neges am Deyrnas Dduw yn darlunio sofraniaeth Duw a allai fod yn anghytuno â rhai safbwyntiau cyfoes.

(1) Mae diffyg y syniad cyffredin fod Duw yn dangos ei sofraniaeth drwy wobrwyo'r rhai da a chosbi'r rhai drwg (Mth. 5:45), yn ogystal â'r syniad fod trychineb yn arwydd o ddicter dwyfol (Luc 13:1-5, cf. Ioan 9:1-3). Roedd Iesu'n amlwg yn ystyried y tlawd a'r cymdeithasol ddifreintiedig fel rhai o dan ofal arbennig Duw (Luc 6:20-22).
(2) Mae'r cynnig o faddeuant fel rhan o sofraniaeth Duw yn cael ei ail-ddehongli ar y sail mai'r unig amod sy'n angenrheidiol i'w dderbyn yw bod yn barod eich hun i faddau i eraill (Mth.6:14-15; Marc 11:25-26; Luc 17:3-4). Roedd safbwyntiau cyfoes yn fwy cymhleth: e.e. fod maddeuant yn ganlyniad i aberth o iawn neu benyd drwy weithiau da, i'w cadarnhau gan arwyddion o fendith Duw fod edifeirwch felly wedi cael ei ddangos.
(3) Yn cyfateb i ddatganiad Iesu am faddeuant mae ei ymwneud â gwrthodedigion cymdeithas, e.e. mae Marc 2:16 yn atgof dibynadwy. Rhaid rhoi'r pryfocio yn Mth.11:16-19/Luc 7:31-35 fod Iesu (yn wahanol i Ioan yn 'feddwyn glwth' ochr yn ochr â'i olwg o'i hun fel dyn sengl heb ei gartref ei hun (Luc 9:58), y mae ei fywyd yn galed a blinedig (Marc 3:20) a lle y gall fod yn anodd cael amser i bryd o fwyd hyd yn oed (cf. Ioan 4:6-8).
(4) Mae'r cwestiwn am gadw'r Saboth hefyd yn rhan o natur radical dealltwriaeth Iesu am sofraniaeth Duw. Roedd Iesu'n amlwg yn teimlo y gallai alw ar gymorth Duw er bod y Saboth i'n hatgoffa fod Duw wedi gorffwys ar y dydd hwn. Felly a oedd Iesu mor hy â gorchymyn wrth Dduw yn erbyn dymuniadau Duw ei hun? Byddai hynny'n ymddangos yn gableddus (mae Ioan 5: 15-18 a 10:32-33 o bosibl yn ein hatgoffa am ddadleuon Iddewig yn y fan hon).

Serch hynny, mae Iesu'n parhau i ddilyn ffurfiau traddodiadol addoliad Iddewig. Mae'r ffaith ei fod yn cael ei wahodd i siarad mewn synagogau ac yn ennyn diddordeb y Phariseaid (Luc 7:36-50) a'u cymeradwyaeth (Marc 12:28-34) yn golygu fod ei neges wedi cael cefnogaeth. Felly mae'n debyg fod tôn wrth-Phariseaidd yr Efengylau wedi'i lliwio gan wrthdaro diweddarach rhwng Iddewiaeth a'r eglwys.

Eto daeth gweinidogaeth Iesu i ben mewn dienyddiad cyhoeddus. Bydd yn rhaid i ni wneud rhyw fath o benderfyniad ynghylch a oedd marwolaeth Iesu yn ganlyniad i grynhoad o ddigwyddiadau ar adeg arbennig yn ei fywyd, ac felly i ryw raddau yn pellhau cwrs ei weinidogaeth o'r pwynt hwnnw, neu a oedd yn ei hanfod yn ganlyniad tebygol o fewn strwythur y weinidogaeth honno ei hun. Ond a allai gwrthdaro Phariseaidd fel hyn

fod wedi creu ei gwymp? Gallwn nodi, er enghraifft, y gwrthwynebiad yn casglu yn Marc 3:6, ond gallai'r cyfeiriad cynnar hwn yn Marc fod yn ganlyniad i sut mae Marc wedi trefnu ei Efengyl. Roedd ymateb ffydd yr eglwys e.e. 1 Cor. 1:23, yn honni o fewn ei rhesymeg ddiwinyddol ei hun fod gweinidogaeth Iesu wedi arwain at y groes ac efallai y gellid ystyried y diwedd a ddaeth i'w ran yn anochel o ystyried cynnwys ac arddull ei weinidogaeth (Mth. 23:37; Luc 13:34). Nid ef oedd yr unig un i farw marwolaeth merthyr, oherwydd roedd ei gefnder Ioan Fedyddiwr wedi'i ladd yn yr un modd. Medd Geza Vermes, 'Mae'n bosibl fod ei agwedd at y Torah a'i ddirnadaeth o'i brif neges wedi dangos arwydd o unigolyn, ond ni ellir yn gyffredinol, nac ar unrhyw bwynt arbennig, ddangos ei fod yn athro antinomaidd ' (Vermes, 1993, t. 26).

**Yr ymateb gwleidyddol Rhufeinig**

Y broblem yw, er mai'r Rhufeiniaid a laddodd Iesu yn ôl y dystiolaeth, nid y Rhufeiniaid yr oedd yn eu cythruddo. Dywed Ioan 19.12-16 fod yr Iddewon wedi dwyn Iesu i gyfrif gerbron Pilat ar gyhuddiad o annog gwrthryfel ac yn yr un modd mae'n ymddangos fod y treial yn Marc yn troi ar yr ymadrodd 'brenin yr Iddewon' (15:2, 12, 18, 26, 32). Mae yna ddadl ynghylch a oedd gan yr Iddewon hawl i roi'r gosb eithaf yn yr adeg honno. Dywed ffynonellau Iddewig, e.e. Talmud j. San. 1:1 a 7:2, nad oedd gan yr Iddewon yr hawl i'r gosb eithaf 'am ddeugain mlynedd cyn dinistrio Jerwsalem'. Byddai hynny'n cyd-fynd â Ioan 18:31 nad oedd gan yr Iddewon awdurdod o ran cosb marwolaeth. Ond yn ôl yr Actau 7:54-60, cafodd Steffan ei labyddio i farwolaeth yn Jerwsalem. Ceir sôn am daflu cerrig i ladd hefyd yn hanes Iago brawd Iesu (yn 62 OC), yn ogystal ag ymgais i labyddio Iesu ei hun yn Ioan 8:59. Os nad oedd y Rhufeiniaid wedi ymyrryd yn achos Steffan, yna mae'n debyg y gallai'r Iddewon fod wedi llusgo Iesu allan a thaflu cerrig ato (cf. Luc 4:29-30). Mae rhai ysgolheigion wedi dadlau mai'r rheswm na chafodd Iesu ei labyddio yn syml oedd dymuniad ar ran yr awdurdodau Iddewig i godi'r cywilydd mwyaf ar Iesu - yn unol â Deut. 21:23 byddai ei groeshoeliad yn symbol o'i statws fel alltud a throseddwr, ac un a oedd yn wirioneddol wedi'i wrthod gan Dduw cf. 1 Cor. 1:23. (Gall fod Paul yn ymwybodol o'r broblem hon ac yn cynnig gwrth-ddehongliad yn Gal. 3:13-14. Yn ôl 2 Cron. 24:20-21, roedd llabyddio yn golygu fod rhywun yn ddieuog - ond byddai croeshoeliad yn osgoi unrhyw bosibilrwydd o fudiad merthyrol.) Ond eto, mae'n rhaid bod yr awdurdodau Iddewig wedi cymryd rhywfaint o risg yn defnyddio Rhufain i waradwyddo Iesu fel hyn. Beth pe bai Rhufain yn ei gael yn ddieuog (fel y ceisiodd Pilat ei ddweud, o leiaf am ychydig)? Fodd bynnag, mae'n bosibl fod yr achosion o labyddio y clywn amdanynt yn fwy i wneud â gweithredu lleol. Mae marwolaeth Steffan yn swnio'n fwy fel cyfraith y dorf, a digwyddodd marwolaeth Iago rhwng procaduriaethau Festus ac Albinus (ac, yn ôl Josephus, gweithredodd Annas fel Archoffeiriad yn anghyfreithlon yn llygaid rhai o'i gyfoedion wrth gytuno i farwolaeth Iago).

Mae'r ffaith fod Iesu wedi'i groeshoelio yn golygu ei fod wedi'i gondemnio ar gyhuddiad gwleidyddol ac mae nifer o bwyntiau a allai eu cynnig eu hunain i ddehongliad chwyldroadol fel hwn. Roedd yn dod o Galilea (canolfan enwog am afreolaeth) ac roedd ganddo o leiaf un Selot ymhlith ei ddisgyblion (Luc 6:15). Yn ôl Ioan 6:15, yr ymateb i borthi'r pum mil oedd dymuniad i wneud Iesu yn frenin 'trwy orfodaeth', ac mae ymweliad terfynol Iesu â Jerwsalem wedi'i nodi gan ryw elfennau o drefnu ymlaen llaw drwy gael ebol asyn a'r ystafell i'r Swper Olaf.

(Mae ysgolheigion yn hoffi trafod ai Dathlu'r Pasg oedd y wledd hon, yn dibynnu ar asesu tystiolaeth Efengyl Ioan o'i chymharu â'r Efengylau Synoptig.) Eto, roedd o leiaf un o ddilynwyr Iesu yn arfog pan gafodd Iesu ei arestio (gweler Marc 14:47 a'r darnau sy'n cyfateb yn Mathew a Luc), ac mae ymadrodd rhyfedd yn Marc 11:16 nad oedd Iesu'n gadael i neb gludo dim trwy'r deml. Ar y llaw arall, mae Iesu'n ymwrthod â thrais (Mth. 26:52) ac roedd yr eglwys fore'n arddel polisi o ufudd-dod sifil fel rhan o'i ffydd.

Y cyhuddiadau yn wynebu Iesu oedd:

*Gerbron Pilat:*

(a) brenin yr Iddewon = annog gwrthryfel posibl (yn y pedair Efengyl);

(b) 'bod yn droseddwr' (Ioan 18:30);

(c) 'arwain y genedl ar gyfeiliorn / gwahardd talu trethi i Gesar / honni bod yn frenin' (Luc 23:2 cf. Ioan 19:12).

*Gerbron y Sanhedrin:*

(a) 'dinistrio ac ailadeiladu'r deml' (Marc 14:58 a 15:29; Mth. 26:60. Gweler hefyd feirniadaeth Steffan o'r Deml yn Actau 7:44ff);

(b) 'bod yn blenipotensiwr Duw' fel 'mab Duw' (Ioan 19:7; Luc 22:70; Marc 14:61-62; Mth. 26:63).

Mae treial gerbron y Sanhedrin yn annhebygol. Yn ôl y Mishnah San 4:1, ni allai achosion oedd yn gysylltiedig â'r gosb eithaf gael eu clywed yn y nos, fel na fyddent yn cael eu rhuthro. Mae'n fwy tebygol fod yna ryw fath o wrandawiad anffurfiol. Ni allwn wahanu crefydd rhag gwleidyddiaeth ar yr adeg yma, ond y Rhufeiniaid a roddodd Iesu i farwolaeth. Gall fod, gyda rhywfaint o gefnogaeth yr Iddewon, yn enwedig gan y Sadwceaid a phryder am y Deml, eu bod yn gweld y 'mudiad Iesu' yn rhywbeth oedd yn ansefydlogi. Byddai'r weithred o lanhau'r Deml (gweithred broffwydol symbolaidd mae'n rhaid) wedi cael ei hystyried yn weithred radical er nad oedd ei hystyr yn hollol glir efallai. Gan fod proffwydi yn aml yn darlunio eu neges yn symbolaidd, felly mae'n bosibl fod Iesu yma yn rhybuddio yn erbyn y ffordd yr oedd y Deml yn rhwystro gwir addoli Duw, os oedd yn golygu drwy hynny fod dilyn defodau yn gwneud Israel yn hunanfodlon gerbron Duw. Roedd Micha 4:1ff ac Eseia 2:3; 56:7 yn rhagweld Teml newydd a disgwylid i'r Meseia ddod i'r Deml a'i phuro. Yn ôl Sech. 14:21, byddai diwedd i farchnatwyr yn y Deml yn nodwedd o'r oes Feseianaidd. Os yw Marc 14:58 (cf. 15:29 a'r Actau 6:13ff) yn ddilys, yna nid yw bwriad gweithred Iesu yn ymwneud â rheoli'r Deml (11:17) ond mae'n arwydd naill ai o Deml newydd (14:58) neu (yn radical) hyd yn oed diwedd i'r Deml (13:2ff). Roedd Micah 3:12, cf. Jer. 7:14 a 26:6, wedi rhagweld dinistrio'r Deml, ac roedd grwpiau eraill (e.e. Qumran a'r Samariaid) yn feirniadol ohoni fel canolbwynt llygredd a chyfaddawd. O ystyried y byddai Iesu wedi ymweld â'r Deml yn aml (yn dilyn tystiolaeth Ioan yn hytrach na'r Efengylwyr Synoptig), efallai fod ei weithred yn ganlyniad adnabod ac arsylwi'n hirach ar rôl y Deml mewn bywyd Iddewig. I'r graddau hyn nid yw'n weithred ar hap ond mae'n cyd-fynd â phatrwm ei weinidogaeth, lle mae dyfodiad Teyrnas Dduw yn arwydd o her radical i ffydd ac ymddygiad personol ac i strwythurau gormesol ei ddydd. Yn y Bedwaredd Efengyl, mae'r digwyddiad yn y deml yn cael ei osod yn gynnar, ar ddechrau gweinidogaeth Iesu, ac mae'n cynnig sylfaen ar gyfer ei wrthwynebu. Gallai hynny fod. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn hanes Ioan sy'n adleisio Marc ac felly mae'n bosibl fod y digwyddiad wedi digwydd ar ddiwedd ei weinidogaeth ac wedi cyfrannu'n drasig

at ei gwymp.

Yn dilyn y digwyddiad yn y Deml, ni chiliodd Iesu ond arhosodd i ddysgu yn y Deml ac o'i hamgylch. Mae'n rhaid bod hynny wedi cynyddu'r tensiwn. Ar ryw bwynt amhenodol, cafodd yr awdurdodau Rhufeinig eu tynnu i mewn, naill ai drwy gais neu drwy eu hymyrraeth eu hunain, a chafodd Iesu ei ddwyn i gyfrif ar y cyhuddiad ffurfiol o fod yn 'frenin yr Iddewon'. (A ellid gweld Marc 11:16 fel rhyw fath o weithred frenhinol?) I Rufain, byddai hynny'n gyhuddiad a fyddai'n dwyn y gosb eithaf.

Gallwn gasglu nad oedd y cyhuddiad gerbron Pilat yn wir gyhuddiad gan nad oedd Iesu'n honni bod yn frenin. Ond yn llygad y cyhoedd ni fyddai'r Ymdaith i mewn i Jerwsalem wedi osgoi sylw'r Rhufeiniaid, yn enwedig gan fod y Pasg yn adeg o aflonyddwch sifil a phoblogaeth y ddinas wedi cynyddu'n fawr ar gyfer yr ŵyl. I'r graddau hynny byddai'r awdurdodau Rhufeinig wedi bod yn sensitif i unrhyw dystiolaeth y gallai eraill, am ba reswm bynnag, fod yn dymuno'i chyflwyno fel rhan o agenda arall.

Daw gweinidogaeth Iesu i ben gyda'i farwolaeth trwy groeshoeliad. Rhoddwyd Iesu i farwolaeth ar y cyhuddiad gwleidyddol o honni bod yn frenin mewn rhyw ystyr. Nid oedd eironi hyn wedi'i golli ar yr eglwys fore yng nghyd-destun ei deffroad i genhadaeth yng ngoleuni'r Pasg. Ond mae'r ymateb o fewn yr eglwys oedd yn datblygu i'r hyn roedd yn dathlu fel atgyfodiad Iesu, neu'n fwy penodol y gred fod Duw wedi codi Iesu o farw i fyw, yn perthyn i drafodaeth arall.

## Dolenni rhyngrwyd

https://en.wikipedia.org/wiki/Ministry_of_Jesus_ Ministry of Jesus (Wikipedia)

https://www.bbc.co.uk/news/magazine-35120965?ns_mchannel=email&ns_source=inxmail_newsletter&ns_campaign=bbcnewsmagazine_news__&ns_linkname=na&ns_fee=0 What did Jesus really look like? (Joan Taylor)

https://bibleinterp.arizona.edu/articles/bon368024 Ten things I learnt about Jesus (Helen K Bond, in *The Bible and Interpretation*)

https://www.youtube.com/watch?v=U-EhIHz3CDc My Soul Glorifies the Lord: Jesus' female disciples (Helen Bond and Joan Taylor, YouTube, 2018)

https://www.youtube.com/watch?v=AVZbNkDG5J4 (Rowan Williams, You Tube, 2019)

## Pwyntiau Trafod

1. Beth allwn ni ei wybod am sut roedd Iesu'n ei adnabod ei hun ac a oes ots?
2. Ydych chi'n credu mai pryd y Pasg oedd y Swper Olaf? (Cymharwch yr Efengylau Synoptig ag Efengyl Ioan ar y pwynt hwn.)
3. Os mai camweinyddiad cyfiawnder oedd marwolaeth Iesu, pam y dylai gael gymaint o arwyddocâd crefyddol?
4. Beth sydd gan gred grefyddol i'w ddweud am gynnal cyfiawnder?

## Cyfeiriad

Vermes, G. (1993). T*he religion of Jesus the Jew*. Minneapolis, Minnesota: Fortress Press.

*Mae'r Parchedig Ddr James Francis yn ganon amhreswyl yn Eglwys Gadeiriol Durham ac yn gymrawd gwadd yng Ngholeg St John's, Durham. Bu'n uwch ddarlithydd yn Astudiaethau'r Testament Newydd ym Mhrifysgol Sunderland, ac wedyn yn Brifathro Cwrs Gweinidogaeth Leol Ordeiniedig Esgobaeth Durham. Mae ei gyhoeddiadau'n cynnwys golygyddiaeth y gyfres lyfrau Religions and Discourse (Peter Lang), llyfr ar blentyndod yn yr hen fyd, darllenydd ar weinidogaeth hunangynhaliol, ac mae'n cyfrannu at eiriaduron Beiblaidd.*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 18 Gwanwyn 2021
© L. Philip Barnes

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Beirniadaeth Hume o'r Ddadl o (i) Ddyluniad Rhan 1

L. Philip Barnes

*Mae'r erthygl hon, sydd mewn dwy ran, yn crynhoi beirniadaethau dylanwadol Hume o'r ddadl dyluniad i gefnogi cred yn Nuw.*

*Cysylltiadau â'r fanyleb:*
*AQA 3.1 Elfen 1: Athroniaeth crefydd a moeseg: 3.1.1 Adran A: Athroniaeth crefydd: Dadleuon dros fodolaeth Duw: Dyluniad: Beirniadaethau: Hume*
*EDEXCEL Papur 1: Athroniaeth Crefydd: 1.1 Dadl dyluniad: Hume*
*Papur OCR H173: 2. Bodolaeth Duw: y ddadl deleolegol*
*CBAC/EDUQAS Uned 2: Adran B – Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd Thema 1: Dadleuon dros fodolaeth Duw - anwythol: C Heriau, David Hume – problemau â chydweddiadau; gwrthod honiadau theistig traddodiadol; nid Duw theistiaeth glasurol yw'r dylunydd o reidrwydd; duw prentis; sawl duw; duw absennol (teleolegol)*

**Cyflwyniad**

Mae gan y ddadl dyluniad linach athronyddol hir, yn mynd yn ôl i'r Groegiaid gynt. Roedd yn boblogaidd hyd at ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan bylodd ei phoblogrwydd o dan rym gwerthfawrogiad cynyddol o feirniadaethau David Hume (1711-1776) yn y llyfr a gyhoeddwyd ar ôl ei farwolaeth, y *Dialogues Concerning Natural Religion* yn 1779, ac o dan sialens damcaniaeth esblygiad Darwin a oedd yn cynnig esboniad naturiolaidd am yr hyn oedd yn *ymddangos* fel dyluniad deallus pwrpasol (ffurf deleolegol y ddadl; gweler isod). Mae honiad William Paley (1743-1805), a wnaed yn eironig ugain mlynedd ar ôl beirniadaethau Hume, sef bod cymhlethdod a natur bwrpasol y byd a'i rannau cyfansoddol yn arwyddo dylunydd deallus; fel y mae'r cymhlethdod a'r pwrpas a welir mewn oriawr yn arwyddo oriadurwr deallus, yn cael ei ystyried yn aml fel ffurf greiddiol (neu o leiaf y mwyaf cyfarwydd) o'r ddadl dyluniad.

Mae defnydd dyluniad yn *ddadl 'a posteriori'*, sef dadl sy'n seiliedig ar brofiad. Yma gwneir *cydweddiad* rhwng cynnyrch dyluniadau dynol ('arteffactau') a'r byd neu agweddau o'r byd (megis y llygad dynol) yr ystyrir eu bod yn yr un modd yn dangos dyluniad a phwrpas, ac felly angen dylunydd. Mae dehonglwyr mwy diweddar yn nodweddiadol yn gwahaniaethu rhwng

(1) y ddadl dyluniad draddodiadol sy’n canolbwyntio ar bwrpas, y credir ei fod yn amlwg yn y bydysawd ac mewn Natur, ac y cyfeirir ati’n aml fel y ddadl deleolegol (o’r term Groeg, *telos*, sy’n golygu ‘pwrpas’, ‘nod’ neu ‘amcan’); a
(2) dadl dyluniad sy’n canolbwyntio ar y drefn sy’n amlwg yn neddfau’r bydysawd – ar naill ai cysondeb parhaus deddfau ffisegol, fel disgyrchiant, er enghraifft, yr hyn y mae John C. A. Gaskin (1988, t. 13) yn galw’n ‘ddadl rheoleidd-dra’ a Richard Swinburne (1979, t. 133) ‘y ddadl rheoleidd-dra dilyniant’ – neu ar y cyfuniad o ddeddfau (ffiseg) sy’n gweithio ar y cyd mewn ffyrdd mathemategol gywir a achosodd greu’r bydysawd i ddechrau (y cyfeirir ati’n aml fel y ddadl dyluniad ‘manwl diwnio’ neu ‘anthropig’).

Nid yw Hume, fodd bynnag, fel y mae’r rhan fwyaf o athronwyr yn gwneud erbyn hyn, yn gwahaniaethu’n ofalus rhwng fersiwn deleolegol y ddadl dylunnid a’r fersiwn rheoleidd-dra, ac mae ei feirniadaeth wedi’i chyfyngu’n bennaf i’r gyntaf, sy’n amlwg yn adlewyrchu pwyslais apolegwyr crefyddol ei oes. Bydd y term ‘dadl dyluniad’ yn cael ei ddefnyddio yma i gyfeirio at fersiwn deleolegol a rheoleidd-dra y ddadl, gan nad oes fawr o wahaniaeth rhyngddynt; pan fydd rhywbeth â goblygiadau athronyddol yn ymwneud ag un fersiwn ond ddim y llall yna byddant yn cael eu gwahaniaethu.

**Ffynonellau**

Mae beirniadaeth Hume o’r ddadl dyluniad wedi’i chyfyngu i ddwy ffynhonnell, *An Enquiry concerning Human Understanding* (1748) a *Dialogues on Natural Religion* (1779), lle mae’n cael ei hymdriniaeth fwyaf estynedig. Fel mae’r teitl Dialogues yn awgrymu, mae’n cyflwyno sgyrsiau, (‘deialogau’) a gynhyrchwyd gan Hume, rhwng grŵp o ffrindiau ar wirionedd a rhesymoldeb crefydd naturiol, hynny yw, gwirionedd crefydd sy’n hygyrch i bawb drwy arfer rheswm a dadl. Y prif sgwrswyr yw Cleanthes, theist sy’n cefnogi’r ddadl dyluniad ac sy’n credu y gellir adnabod Duw drwy arsylwi a dadlau; Philo, sy’n beirniadu’r ddadl dyluniad, o leiaf yn y modd mae’n honni cefnogi bodolaeth Duw, fel y’i dehonglir yn draddodiadol gan theistiaid; a Demea, sydd heb fawr o amynedd â phrosiect diwinyddiaeth naturiol a phrofion rhesymegol dros fodolaeth Duw. Mae’n sylw ni ar y gwrthwynebiadau a wneir yn erbyn y ddadl dyluniad, sy’n golygu, yn achos y *Dialogues*, bydd pob beirniadaeth a gwrthwynebiad yn cael eu priodoli i Hume.

Ceir ffyrdd gwahanol o adnabod a dosbarthu beirniadaethau Hume, sy’n dangos yn rhannol yr her o sut mae’r llif parhaus o sgwrsio a dadlau yn cael ei is-rannu. Mae gwrthwynebiad i un agwedd o’r ddadl dyluniad yn aml yn ‘gorgyffwrdd’ neu’n cael ei ehangu a’i newid yn wrthwynebiad i ryw agwedd arall, oherwydd pryd mae gwrthwynebiad estynedig neu a ailgyfeiriwyd yn dod yn feirniadaeth ar wahân? Mae Gaskin (1988, tt. 16-17), awdurdod ar athroniaeth crefydd Hume ac ar ei feirniadaethau o ‘ddyluniadau’ mewn Natur, yn nodi pedwar gwahanol grŵp o feirniadaethau cysylltiedig:

- beirniadaethau sy’n canolbwyntio ar y defnydd o gydweddiad;
- gwrthwynebiad sydd wedi’i wreiddio yn natur achosiant;
- cyfyngiadau ar y casgliadau y gellir dod iddynt, hyd yn oed os yw’r ddadl yn ddilys; ac
- esboniadau gwahanol am y drefn dybiedig yn y byd naturiol.

## Datganiad Cleanthes o'r ddadl dyluniad (teleolegol)

> Edrychwch o gwmpas y byd: Myfyriwch am y cyfan a phob rhan ohono: Fe welwch nad yw'n ddim ond un peiriant mawr, wedi'i is-rannu'n nifer diddiwedd o beiriannau llai, sydd eto'n cynnwys is-raniadau i raddfa y tu hwnt i'r hyn y gall synhwyrau a chyneddfau dynol eu holrhain a'u hegluro. Mae'r holl beiriannau gwahanol hyn, a hyd yn oed eu manion lleiaf, wedi'u haddasu at ei gilydd gyda chywirdeb sy'n cyfareddu pob dyn sydd eiroed wedi meddwl amdanynt. Mae addasu rhyfeddol dulliau i'r nodau, drwy holl natur, yn union fel ... cynnyrch dyfeisgarwch dynol; dyluniad, meddwl, doethineb, a deallusrwydd dynol. Gan fod yr effeithiau yn debyg i'w gilydd felly, rhaid i ni gasglu, drwy holl reolau cydweddiad, fod yr achosion yn debyg hefyd, a bod Awdur Natur rywbeth yn debyg i feddwl dyn, er bod ganddo alluoedd llawer mwy, yn gymesur â mawredd y gwaith y mae wedi'i gyflawni. Drwy'r ddal a posteriori hon, a thrwy'r ddadl hon yn unig, rydym yn profi ar unwaith bodolaeth Duwdod a'i debygrwydd i feddwl a deallusrwydd dynol (Hume, *Dialogues,* Rhan II; *Hume on Religion*, 1968, tt. 115-116)

## Bydysawd unigol

Mae Hume yn honni nad yw rhesymu cydweddol yn dal dŵr yn achos gwrthrychau unigol. Dywed Philo:

> Pan mae dau fath o wrthrych bob amser wedi cael eu gweld yn gydgysylltiedig, gallaf gasglu, drwy arfer, bodolaeth y naill pryd bynnag y gwelaf fodolaeth y llall ... Ond sut gall y ddadl hon fod yn wir pan mae'r gwrthrychau, fel yn yr achos hwn yn sengl, unigol heb gyffelybiaeth neu debygrwydd penodol, a hynny'n anodd ei esbonio. (Rhan II; *Hume on Religion*, t. 123)

Mae'r bydysawd yn unigryw ac oherwydd ei fod yn unigryw, ni ellir tynnu cydweddiad ar sail profiad, sydd wedi'i gyfyngu i'r pethau y gellir eu gweld yn 'gydgysylltiedig' o fewn y bydysawd. Ni wyddom ddim am greu bydysawdau eraill, os oes yna rai, oherwydd dim ond ag un yr ydym yn gyfarwydd. Pe baem yn gwybod efallai am fydysawdau eraill ac yn gwybod yn sicr eu bod yn gynnyrch dylunydd deallus, yna gallem, drwy gydweddiad, resymu fod 'ein' bydysawd yn yr un modd yn gynnyrch dylunydd deallus. Heb wybodaeth o'r fath, nid oes grym rhesymegol i gasglu bod yna ddylunydd.

Roedd Hume yn credu na allwn ddefnyddio dadl o gydweddiad os yw un o'r eitemau mewn cydweddiad, yn yr achos hwn y bydysawd, yn unigryw. Ydi hyn yn argyhoeddi? Mae cosmolegwyr sy'n astudio dechreuad y bydysawd neu natur y Glec Fawr a achosodd ffurfio'r bydysawd yn defnyddio rhesymeg cydweddiad yn eu hesboniadau, er bod y ddau yn bethau unigryw. Defnyddir cydweddiad (a chasgliad) hefyd mewn ymchwiliadau gwyddonol i darddiad yr hil ddynol, sydd eto'n unigryw; nid yw bod yn unigryw o reidrwydd yn eithrio rhesymeg gydweddol ar brydiau. Nid yw pob rhesymu mewn cosmoleg a phalaeoanthropoleg, fodd bynnag, yn dibynnu'n llwyr ar ddefnyddio cydweddiadau a gall hyn awgrymu fod rhesymu cydweddol ddim ond yn berswadiol pan mae'n cael ei ategu gan ffurfiau eraill o resymeg sy'n cynnwys ffurfiau mwy uniongyrchol o arsylwi. Mae'r mater hwn yn dod i lawr i gryfder y cydweddiad rhwng tystiolaeth o ddyluniad yn y bydysawd a'r arteffactau dynol y gwyddom eu bod wedi cael eu gwneud

gan ddyluniad deallus; ac ar hyn mae anghytundeb. Yn ddiddorol, dadleuodd William Paley, hyd yn oed os nad oeddem wedi gweld oriawr o'r blaen, byddai gweld un ar lawr wrth fynd am dro yn gwneud i ni ei hystyried yn gynnyrch dylunydd (ar ddadl Paley, gweler Wynn, 2011).

**Gwendidau yn y cydweddiad**

Mae Hume, drwy Philo, yn mynnu fod y cydweddiad rhwng y bydysawd a'r arteffactau (cynhyrchion) sy'n arddangos dyluniad yn rhy wan i ddod i'r casgliad fod yna Dduw. Yn ôl y ddadl dyluniad mae gwrthrychau naturiol (y corff dynol, er enghraifft) yn debyg i arteffactau, sy'n cael eu hachosi gan gyfryngau dynol; felly mae gwrthrychau naturiol yn cael eu hachosi gan gyfrwng an-ddynol sy'n debyg i gyfryngau dynol, heblaw cyn belled ag mae'r annhebygrwydd rhwng arteffactau a gwrthrychau naturiol yn gofyn i ni hawlio gwahaniaeth. Y feirniadaeth gan Hume a ailadroddir yn aml yn yr *Enquiry a'r Dialogues* yw bod cydweddiad ar ei gryfaf pan mae ystod o nodweddion cyffredin a pham mae'r nodweddion yn debyg eu maint.

> Os ydym yn gweld tŷ, CLEANTHES, down i'r casgliad, gyda'r sicrwydd mwyaf, ei fod wedi cael pensaer neu adeiladwr; oherwydd dyma'n union y math o effaith rydym wedi'i phrofi i fynd ymlaen o'r math hwnnw o achos. Ond fyddech chi erioed yn honni, fod y bydysawd mor debyg i dŷ, y gallwn gyda'r un sicrwydd gasglu achos tebyg, neu fod y cydweddiad yma yn llwyr a pherffaith. Mae'r gwahaniaeth mor drawiadol, fel mae'r mwyaf y gallwch honni yma yw amcan, dyfaliad, tybiaeth sy'n ymwneud ag achos tebyg; a sut bydd yr honiad hwnnw'n cael ei dderbyn yn y byd, fe gewch chi feddwl am hynny (Rhan II; *Hume on Religion*, t. 117).

Y broblem yn ôl Hume, o ystyried nad yw Duw iddo ef yn wrthrych profiad uniongyrchol, yw bod y pethau tebyg a honnir rhwng arteffactau dynol (fel mewn tŷ) a chynhyrchion natur, neu'n wir y bydysawd yn gyffredinol, wedi'u cyfyngu'n gul i rai trefn neu bwrpas a bod y gwahaniaeth rhwng cymhlethdod Natur a chymhlethdod arteffactau dynol yn drawiadol: felly mae'r cydweddiad yn wan. Nid oes cyffelybiaeth agos rhwng arteffactau dynol a gwrthrychau naturiol. Mae cyffelybiaethau cyfyngedig rhwng dau 'wrthrych' a gymerir yn gwanhau cryfder unrhyw gydweddiad a gynigir ac unrhyw gasgliad sy'n seiliedig arno. Yn ôl Hume, mae 'ysblander enfawr a godidowgrwydd gwaith Natur' yn gymaint uwch na chreadigaethau dynol fel bod unrhyw gymhariaeth gadarnhaol neu ffafriol rhyngddynt yn rhyfygus ar ran dynion (Rhan V; *Hume on Religion,* t. 138).

Un ymateb yw hyn yw cyfeirio at y ffaith, na fyddai Hume wedi gwybod, fod creadigaethau dynol bellach yn mynd llawer tu hwnt i gymhelthdod dyluniad a chynhyrchiad na'r rheini y byddai ef wedi bod yn gyfarwydd â nhw yn y ddeuddegfed ganrif. Mae'r dechnoleg oedd ei hangen i anfon dyn i'r lluad, neu i greu'r *Hadron Collider* Mawr yn Ffrainc/y Swistir yn sicr yn culhau'r bwlch rhwng cymhlethdod creadigaethau dynol a mawredd gweithiau natur. Mae bwlch mawr yn aros o ran cymhlethdod, ond gellid dadlau fod y cydweddiad yn gryfach yn nawr nac yn nydd Hume.

Gellir derbyn fod rhai cydweddiadau yn wan ac mai ychydig y gellir ei brofi ar eu sail. Er enghraifft, mae oren yn siâp sffêr, fel y mae'r byd, ond dyna ddiwedd y gyffelybiaeth. Nid yw'r byd wedi'i wneud o segmentau llawn sudd. Eto gall rhai cydweddiadau roi mewnwelediad pwysig, hyd yn oed os yw wedi'i gyfyngu i un nodwedd. Os gellir dadlau achos dylunydd ar sail y tebygrwydd rhwng gwrthrychau naturiol yn y byd (neu'r

bydysawd yn gyffredinol) ac arteffactau dynol, mae'r dylunydd hwn hefyd yn fod o bŵer a gwybodaeth mawr, gyda'r gallu i gynllunio a gweithredi ei fwriadau.

**Y cyfan a rhannau**

Mae Hume yn gofyn, drwy Philo: '… a all casgliad, gydag unrhyw briodoldeb, gael ei drosglwyddo o rannau i'r cyfan?' (Rhan II; *Hume on Religion*, t. 121). Dim ond rhan fach o'r bydysawd a welen er ei bod yn helaeth, ond sut mae hyn yn cyfiawnhau ein bod yn meddwl fod y bydysawd cyfan yn dangos dyluniad naill ai yn awr neu yn ystod ei holl fodolaeth? Y sylw yw y gall dyluniad fod yn nodwedd o rannau o'r bydysawd ond ni allwn allosod o hyn i'r casgliad fod y bydysawd cyfan yn dangos dyluniad (ond oes angen i ni ddod o hyd i ddyluniad yn y cyfan i gefnogi'r ddadl?). Mae'r gwrthwynebiad yma yn ymwneud â phwynt athronyddol ehangach, y cyfeirir ato weithiau fel *camsyniad cyfansoddiad*.

Mae'r *camsyniad cyfansoddiad* anffurfiol (sy'n cael ei amau gan rai athronwyr) yn gasgliad annilys o'r ffurf:

> mae rhannau X i gyd yn meddu ar/yn Y; felly, mae X yn meddu ar/yw Y, lle mae X yn cyfateb i'r cyfannau, ac Y yn cyfateb i briodweddau neu rannau.

Mae'n ddigon hawdd cael enghreifftiau: Mae pob bricsen mewn adeilad yn pwyso llai na dau gilogram. Felly, mae'r adeilad yn pwyso llai na dau gilogram.

Caiff camsyniad cyfansoddiad ei drafod yn fwy aml yng nghyd-destun y ddadl gosmolegol (fel y mae gan Edwards, 1972, tt. 264-270). Mae gan bob un digwyddiad yn y bydysawd achos; felly mae gan y bydysawd yn gyffredinol achos. O ran y ddadl dyluniad:

> Mae'r rhan o'r bydysawd a welwn ni yn dangos dyluniad; felly mae'r bydysawd yn gyffredinol yn dangos dyluniad.

Os yw'r math hwn o resymu yn gamarweiniol yna mae'r (fersiwn hon o'r) ddadl dyluniad yn chwalu.

Ond a yw hi'n gamarweiniol? Nid yw pob dadl o'r ffurf mae rhannau X i gyd yn meddu ar/yn Y yn annilys. Weithiau mae'n rhesymol dadlau o ran i gyfan: Mae pob rhan o'r ddesg wedi'i gwneud o bren; felly mae'r ddesg wedi'i gwneud o bren. Gellid lluosogi enghreifftiau lle mae'r symudiad o'r rhannau i'r cyfan yn ddilys. Ydi'r symudiad o rannau o'r bydysawd yn dangos dyluniad i'r bydysawd i gyd yn dangos dyluniad yn ddilys ai peidio? Mae'r cyfan yn dibynnu ar a yw dyluniad y math o briodwedd sy'n *trosglwyddo* o rannau i'r cyfan fel mae rhyw fersiwn o'r ddadl dyluniad yn honni neu a yw'r math o briodwedd nad yw'n trosglwyddo o rannau i'r cyfan, fel y mae Hume yn credu.

Ydi camsyniad cyfansoddiad yn weithredol i'r ddadl dyluniad a'r *ddadl gosmolegol*? Yn yr ail, mae achos yn cael ei honni am bod dibynnola'r cwestiwn sy'n codi wedyn yw a oes angen achos i esbonio'r holl gadwyn achosol. Gellid dadlau fod y ddadl dyluniad yn wahanol, oherwydd gall y cyfan feddu ar yr (un) priodwerdd y mae ei rannau'n meddu arnynt fesul un, ac felly mae gan y cyfan (y bydysawd) nodweddion sy'n berthnasol i ddyluniad (dyluniadwyedd) heb y casgliad aneddfol. Nid oes raid canfod dyluniad mewn pethau o fewn y bydysawd (a'u defnyddio fel y cynsail gwreiddiol), ac yna gwneud casgliad am y bydysawd drwyddo draw: y bydysawd cyffredinol sy'n cael ei weld yn uniongyrchol fel rhywbeth a ddyluniwyd. Mae rhai yn dadlau nad yw camsyniad cyfansoddiad yn weitherdol yma, ac yn anwybyddu a yw'n gamsyniad ai peidio. Gellid dadlau nad oes raid i'r ddadl 'manwl diwnio' chwaith ddechrau gyda'r cynsail fod dyluniad o fewn y byd, ond gyda chanfod dyluniad ar ddechrau'r

bydysawd neu gyda'r bydysawd yn gyffredinol (gweler y drafodaeth bwysig gan Collins, 2003).

## Geirfa

*cydweddiad (analogy)*: tebygrwydd rhannol rhwng dau beth gwahanol.

*a posteriori*: yn deillio o brofiad.

*cosmoleg (cosmology)*: cangen o astronomeg sy'n ymwneud â dechreuad ac esblygiad y bydysawd.

*dyluniad (design)*: trefniant strywthuredig gwahanol rannau o rywbeth neu drefniant strwythuredig y cyfan.

*camsyniad cyfansoddiad (fallacy of composition)*: camsyniad anffurfiol sy'n codi pan mae rhywun yn casglu fod rhywbeth yn wir am y cyfan oherwydd y ffaith ei fod yn wir am ryw ran o'r cyfan (ddim yn cael ei dderbyn fel camsyniad gan rai athronwyr).

*rhesymu anwythol (inductive reasoning)*: dull o resymu lle mae'r gosodiadau (cynseiliau) yn cefnogi'r casgliad ond ddim yn rhoi sicrwydd, dim ond tebygolrwydd.

*esboniad naturiolaidd (naturalistic explanation)*: esboniadau am achosion, natur a dylanwad crefydd heb gyfeirio at Dduw neu'r goruwchnaturiol.

*crefydd naturiol (natural religion)*: y grefydd sy'n cael ei chefnogi drwy apelio at natur heb yr angen am ddatguddid crefyddol; crefydd rheswm.

*palaeoanthropoleg (palaeoanthropology)*: astudiaeth o darddiad dynolryw.

*teleolegol (teleological)*: yn ymwneud â phwpas.

## Dolenni rhyngrwyd

https://www.youtube.com/watch?v=LPevykeGl0U&ab_channel=WorldFaiths (The Design Argument for the Existence of God)

https://www.youtube.com/watch?v=foeM6vXZCys&ab_channel=MrMcMillanREvis (MrMcMillanREvis, The Design Argument, Part 1)

https://iep.utm.edu/design/ (Kenneth Einar Himma, Design Arguments for the Existence of God, *Internet Encyclopedia of Philosophy*)

https://plato.stanford.edu/entries/teleological-arguments/ (Del Ratzsch, Teleological Arguments for God's Existence, *Stanford Encyclopedia of Philosophy*)

http://www.leaderu.com/offices/billcraig/docs/teleo.html (William Lane Craig, The Teleological Argument and the Anthropic Principle)

## Pwyntiau trafod

1. Esboniwch pam fod rhai fersiynau o fersiynau teleolegol y ddadl dyluniad yn cael eu tanseilio drwy alw ar ddamcaniaeth esblygiad.
2. A fyddai’n cryfhau neu’n gwanhau y ddadl dyluniad pe bai nifer uchel o fydysawdau?
3. Pa mor dda ydych chi’n meddwl yw cydweddiad y llygad dynol â chyfrifiadur modern? Os oes pethau tebyg, ydi hyn yn cryfhau’r ddadl dyluniad?
4. Pam fod yr apêl at ddadleuon o ddyluniad yn cael adfywiad ymhlith athronwyr?
5. Beth yw’r ffordd orau o esbonio dyluniad ymddangosiadol y bydysawd?

## Cyfeiriadau


Ceir nifer o argraffiadau o *Dialogues concerning natural religion* gan Hume. Yn y testun, mae’r tudalennau’n cyfeirio at *Hume on Religion* (1968), a ddewiswyd ac a gyflwynwyd gan Richard Wollheim, London: Collins. Mae’r Dialogues ar gael ar y we hefyd, er enghraifft yn http://www.public-library.uk/pdfs/5/234.pdf.

Collins, Robin (2003). The teleological argument. In *The rationality of theism* (pp. 132-148). Eds. Paul Copan and Paul K Moser, London: Routledge.

Edwards, Rem B. (1968). *Reason and religion*. New York: Harcourt, Brace, Jovanovich.

Gaskin, John C. A. (1988). *Hume’s philosophy of religion*. London: Macmillan.

Swinburne, Richard (1977). *The existence of God*. Oxford: Clarendon Press.

Wynn, Mark R. (2011). William Paley and the argument from design. In *Philosophy of religion: The key thinkers* (pp. 54-75). Ed. Jeffrey J Jordan, London: Continuum.


*Astudiodd Dr L Philip Barnes athroniaeth yng Ngholeg y Drindod Dulyn. Mae’n Ddarllenydd Emeritws mewn Addysg Grefyddol a Diwinyddol yng Ngholeg King’s Llundain. Mae ei ysgrifau diweddar yn cynnwys* Crisis, Controversy and the Future of Religious Education *(Routledge, 2020) ac erthyglau yn y* Journal of Religious Ethics *(2018), Theology (2019),* British Journal of Educational Studies *(2021) a’r I*nternational Journal of Christianity & Education *(2021).*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 18 Gwanwyn 2021
© L. Philip Barnes

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Beirniadaeth Hume o'r Ddadl o (i) Ddyluniad Rhan 2

L. Philip Barnes

*Mae'r erthygl hon, sydd mewn dwy ran, yn crynhoi beirniadaethau dylanwadol Hume o'r ddadl dyluniad i gefnogi cred yn Nuw.*

*Cysylltiadau â'r fanyleb:*
*AQA 3.1 Elfen 1: Athroniaeth crefydd a moeseg: 3.1.1 Adran A: Athroniaeth crefydd: Dadleuon dros fodolaeth Duw: Dyluniad: Beirniadaethau: Hume*
*EDEXCEL Papur 1: Athroniaeth Crefydd: 1.1 Dadl dyluniad: Hume*
*Papur OCR H173: 2. Bodolaeth Duw: y ddadl deleolegol*
*CBAC/EDUQAS Uned 2: Adran B – Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd Thema 1: Dadleuon dros fodolaeth Duw - anwythol: C Heriau, David Hume – problemau â chydweddiadau; gwrthod honiadau theistig traddodiadol; nid Duw theistiaeth glasurol yw'r dylunydd o reidrwydd; duw prentis; sawl duw; duw absennol (teleolegol)*

**Cyflwyniad**

Mae'r dadleuon a ystyriwyd yn barod yn Rhan 1 o'n trafodaeth am feirniadaethau Hume o'r ddadl dyluniad i gyd yn herio'r haeriad canolog fod arsylwad pobl o ddyluniad a phwrpas, a'r tueddiad dynol i weld dyluniad a phwrpas yn y byd (y bydysawd), yn darparu'r sail ar gyfer dadl anwythol sy'n perswadio'n rhesymol (neu deulu o ddadleuon perswadiol rhesymol) sy'n cyfiawnhau cred yn Nuw. Ym marn Hume, mae'r ddadl dyluniad yn amherswadiol resymol. Mae'r beirniadaethau a drafodir isod, yn ei dyb ef, yn cefnogi casgliad mwy cymedrol, sef, hyd yn oed os yw'n llwyddiannus, mae'r ddadl dyluniad yn unrhyw un o'i fersiynau yn methu â chefnogi cred yn Nuw, hynny yw, lle deellir Duw mewn termau traddodiadol yn rhywbeth fel 'person, heb gorff (h.y. ysbryd) sy'n dragwyddol, yn rhydd, yn gallu gwneud unrhyw beth, yn gwybod popeth, yn berffaith dda, yn wrthrych cyfiawn addoliad ac ufudd-dod dynol, creawdwr a chynhaliwr y bydysawd' (Swinburne, 1977, t. 1).

Ar bob pwynt roedd Hume yn gwrthod y ddealltwriaeth hon o Dduw. Gallem ychwanegu ei fod hefyd yn gwrthod unrhyw fath o fodolaeth ar ôl marwolaeth.

**Rheol 'rhesymeg cyfiawnhad'**

Yn *An Enquiry concerning Human Understanding* (1975 [1777], t. 136), mae Hume yn gosod allan nifer o reolau i lywio'r defnydd iawn a 'chyfiawn' o resymeg ddynol, ac un ohonynt yw: 'Os mai dim ond drwy'r effaith y gwyddom yr achos, ni ddylem fyth roi unrhyw briodweddau iddo, y tu hwnt i'r union rai sydd eu hangen i gynhyrchu'r effaith'. Mae'r un egwyddor yn bresennol yn llawer o'r hyn mae Hume yn ei ddweud yn y *Dialogues on Natural Religion*', er ei fod yn cael ei ehangu a'i integreiddio i'w feirniadaeth o'r ddadl dyluniad.

Gall rhywun ragweld ei resymu: hyd yn oed os yw'r ddadl dyluniad yn ddilys, dim ond yr hyn y gellir ei gasglu o ddyluniad y byd neu'r bydysawd all gael ei briodoli'n iawn i'r duwdod – pŵer a gwybodaeth anferth, mae'n debyg, ond nid pŵer anfeidrol (hollalluog) a gwybodaeth anfeidrol (hollwybodus). Ond mae 'duw' o'r fath yn methu nod Duw Cristnogaeth, Islam neu Iddewiaeth. Rhoddir hyd yn oed mwy o rym i'r rheol hon pan mae'n cael ei hystyried yng nghyd-destun trafodaeth Hume am y goblygiadau o gredu yn Nuw bodolaeth drygioni a dioddefaint yn y byd.

**Problem dioddefaint a drygioni**

Caiff 'problem dioddefaint a drygioni i gred theistig' ei thrafod ar wahanol adegau yn y *Dialogues* ond yn bennaf yn Rhannau X ac XI.

Ar rai adegau mae'n ymddangos fod Hume yn beirniadu'r posibilrwydd rhesymegol o fodolaeth Duw a bodolaeth drygioni yn y byd (er bod Philo, yr amheuwr crefyddol, yn cyfaddef y gallai duwdod caredig a drygioni gyd-fynd); ar adegau eraill mae fel pe bai'n nodi tystiolaeth sy'n herio tebygrwydd bodolaeth Duw (yr hyn a elwir erbyn hyn yn 'broblem dystiolaethol drygioni') ac yn olaf; mae'n dadlau fod bodolaeth gwahanol fathau o ddrygioni yn cyfyngu'n fawr ar y casgliad y gellir dod iddo o'r drefn yn y byd i gymeriad y 'trefnydd'. O'r tri, yr olaf yma yw'r un mwyaf nodweddiadol o Hume ac ar hwn y bydd ein trafodaeth yn canolbwyntio.

Gellir mynegi'n syml yr hyn y gellir ei alw'n '*her gasgliadol drygion*i': mae ffenomena'r byd yn gwahardd casgliad am fodolaeth Duw, y credir ei fod yn annherfynol o bwerus a da. Mae drygioni o ryw fath yn bodoli yn y byd yn ddigon aml i wahardd casgliad fel hwn. Ceir digonedd o *ddrygioni naturiol* – pethau nad ydynt yn deillio o fwriadau neu esgeulustod asiantau dynol, fel daeargrynfeydd, afiechyd, corwyntoedd a newyn – ac o *ddrygioni moesol*, h.y. dioddefaint a phoen sy'n deillio o ddewisiadau anfoesol asiantau dynol, megis llofruddiaeth, artaith, lladrad ac yn y blaen.

Dros ganrif cyn Hume, disgrifiodd Thomas Hobbes fywyd fel 'annymunol, bwystfilaidd a byr'. Roedd yn disgrifio bywyd *y tu allan* i gymdeithas, 'dyn yng nghyflwr natur'; tra i Hume safbwynt diduedd ar fywyd *mewn cymdeithas* oedd hefyd yn 'annymunol, bwystfilaidd a byr'. Mae'r ddaear gyfan ... wedi'i melltithio a'i llygru. Mae rhyfel parhaus yn cael ei gynnau ym mhob creadur byw. Anghenraid, newyn, prinder ... Ofn, pryder, arswyd yn cynhyrfu'r gwan a'r methedig': anifeiliaid yn rheibio'i gilydd a phob un yn cael ei gadw mewn 'arswyd a phryder parhaus' (Rhan X; *Hume on Religion*, t. 167).

> Ac mae'n bosibl, CLEANTHES, meddai PHILO, ar ôl yr holl fyfyrdodau hyn.. y galli di ddal ati yn yr

> Anthropomorffaeth, a honni priodweddau moesol y Duwdod, ei gyfiawnder, haelioni, tosturi, ac uniondeb, i fod o'r un natur â'r rhinweddau hyn mewn creaduriaid dynol? Caniatawn fod ei bŵer yn annherfynol: mae beth bynnag mae'n ewyllysio'n cael ei weithredu: ond nid yw dyn nac unrhyw anifail arall yn hapus; felly nid yw'n ewyllysio eu hapusrwydd. Mae ei ddoethineb yn ddiddiwedd: Nid yw'n camgymryd wrth ddewis y modd i unrhyw amcan: Ond nid yw cwrs Natur yn tueddu at ddedwyddwch dyn nac anifail : felly ni chafodd ei sefydlu i'r diben hwnnw. Drwy holl gwmpas gwybodaeth ddynol, nid oes casgliadau sy'n fyw sicr a di-ffael na'r rhain. Ym mha fodd, felly, y mae ei haelioni a'i dosturi yn debyg i haelioni a thosturi dynion?
>
> Mae hen gwestiynau EPICURUS yn dal heb eu hateb.
>
> A yw'n fodlon atal drygioni, ond ddim yn gallu: yna mae'n analluog. A yw'n gallu, ond ddim yn fodlon? yna mae'n faleisus. A yw'n gallu ac yn fodlon? o ble felly daw drygioni (Rhan X; *Hume on Religion*, tt. 171-172)

Mae'r paragraff olaf yn codi'r hyn sy'n cael ei ystyried bellach fel '*y gwrthwynebiad rhesymol' i gred yn Nuw*: sut gall drygioni fodoli ochr yn ochr â Duw hollalluog, hollwybodus, hollgariadus? Erbyn hyn ystyrir yn eang fod y gwrthwynebiad rhesymegol hwn i fodolaeth Duw yn methu, am resymau a osodwyd gan Alvin Plantinga (1967, ac mewn fersiwn lai athronyddol anodd, 1974), nad oes angen mynd drostynt yma. I Hume, fodd bynnag, cymharol amherthnasol yw cydnabod y methiant hwn: nid ei fwriad yw dangos fod y casgliad o ddyluniad i Dduw yn gwrthbrofi bodolaeth Duw, yn hytrach mae'n dangos na ellir priodoli grym a haelioni perffaith i'r duwdod – gall duw â phwerau cyfyngedig fodoli ond nid Duw theistiaeth draddodiadol. Yn ogystal, nid yw dilysrwydd yn ddadl dyluniad yn cefnogi o gwbl y gred fod Duw yn foesol berffaith neu hyd yn oed fod ganddo 'ef' ddiddordeb mewn materion dynol. Nid yw'r byd fel y'i dyluniwyd fel mae Hume yn ysgrifennu uchod, 'yn tueddu at ddedwyddwch dyn nac anifail'. Nid oes yr un o briodweddau moesol traddodiadol Duw yn cael ei gadarnhau ym mydoedd naturiol a dynol profiad. I Hume, mae'r ffaith nad oes gan ddylunydd y byd unrhyw ddiddordeb moesol mewn dynolryw yn cael ei gyfiawnhau drwy sylweddoli'r boen a'r trallod sy'n dod i'r rheini sy'n ceisio bod yn rhinweddol yn ogystal â'r rhai sydd ddim. Nid yw Duw yn gwobrwyo rhinwedd neu'n ymyrryd i achub y diniwed neu'n gweithredu i leihau dioddefaint. Nid yw'r duwdod yn malio am ein hymdrechion moesol. Mae'r Hume yn bwriadu i'r casgliadau hyn, neu'n fwy cywir y cyfyngiadau, sy'n mynd gydag unrhyw ddadl dyluniad/teleolegol, i danseilio theistiaeth *Gristnogol* draddodiadol, er ei fod yn gofalu peidio â datgan hyn yn agored.

Mae yna amryw o atebion y gellir eu rhoi i Hume ar y pwynt hwn, er nad oes lle i'w datblygu'n llawnach yma.

- I ddechrau, gall y rhai sy'n cynnig y ddadl dyluniad yn unrhyw un o'i ffurfiau honni ei bod yn sefydlu neu'n gwneud yn debygol, bodolaeth dylunydd, dim mwy ond dim llai. Mae rhywun sy'n dylunio'r byd neu'r bydysawd o reidrwydd yn fod o rym a gwybodaeth anferthol. Nid Duw theistiaeth glasurol yw bod o'r fath, sydd yn anfeidrol mewn grym a gwybodaeth, ac yn fod uwchben popeth; serch hynny, mae 'duw' o'r fath o leiaf yn Dduw theistiaeth glasurol sy'n meddu ar rym a

gwybodaeth enfawr, y mae Duw yn ei ddangos wrth ddylunio a threfnu'r bydysawd.
- Yn ail, ac yn dilyn o hyn, os yw'r ddadl dyluniad yn methu cyfiawnhau bodolaeth Duw fel y'i deellir yn draddodiadol, mae dadleuon ac ystyriaethau eraill a all ategu ac ychwanegu at y casgliad cymedrol fod yna *mae'n debyg* ddylunydd y bydysawd; y ddadl gosmolegol (Craig, 1979) dyweder neu ddadl o natur wrthrychol goblygiadau moesol i'r casgliad mai Duw yw eu ffynhonnell (Evans, 2015). Mae pob dadl yn gwneud ei chyfraniad arbennig ei hun ac yn cefnogi agweddau gwahanol o gymeriad Duw, fel creawdwr, fel ardderchog yn foesol, ayb.
- Yn olaf, ceir atebion athronyddol niferus i her drygioni a dioddefaint i gred theistaidd (ceir trosolygon da gan Meister, 2012, a Speak, 2015). Bwriedir rhai fel amddiffynfeydd – fel ymatebion beirniadol sy'n ceisio dangos fod dadleuon gwrth-theistaidd yn methu; mae eraill yn theodiciaethau – ymdrechion i ddangos pam y gellir cyfiawnhau fod Duw yn caniatáu dioddefaint a drygioni.

**Cyfyngiadau pellach**

Dyma sut mae John Gaskin (1988, 21) yn crynhoi'r cyfyngiadau ychwanegol y mae Hume yn credu sy'n dilyn o ddilysrwydd y ddadl dyluniad:

> *If valid, the design argument could establish a number of conclusions incompatible with monotheism, namely, that the universe is (1) the product of a committee of designers, (2) a discarded experiment in universe making or the product of a second rate god, or (3) a creation which has ever since been allowed to run on its own devices* (author's italics).

(1) Mae Hume yn dweud fod 'nifer fawr o ddynion yn ymuno i adeiladu tŷ neu long ... Pam na all sawl duw gyfuno i gynllunio a ffurfio byd? (Rhan V; *Hume on Religion*, tt. 140-141). Y pwynt yw bod arteffactau cymhleth a gynhyrchir gan ddynion yn nodweddiadol yn gynnyrch nifer o ddylunwyr (a gallwn ychwanegu crefftwyr); felly, o ystyried cymhlethdod a natur gywrain y byd, dylem gasglu fod y byd hefyd yn greadigaeth a dyluniad llawer (o ddylunwyr) yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect cydweithredol. Y gwrthwynebiad amlwg i'r honiad hwn yw bod yr un deddfau naturiol yn gweithredu drwy'r bydysawd, er enghraifft, deddf sgwâr gwrthdro disgyrchiant. Mae deddfau natur a sut maent yn gweithio gyda'i gilydd mor rhyng-gysylltiedig fel y byddai ar grŵp o ddylunwyr angen gwybodaeth weithio am y cyfan ohonynt er mwyn cydamseru eu rhan fach nhw o ddyluniad y cyfan gyda'r rhai eraill. Fel arall, byddai angen un dylunydd fyddai'n goruchwylio popeth, barn sy'n ategu'r cysyniad o ddylunydd goruchaf, unigryw. Wrth ddod ar draws tybiaethau fel y rhain y mae galw ar '*egwyddor cynildeb*' (sydd hefyd yn cael ei alw'n Rasel Occam) yn iawn, hynny yw, yr egwyddor sydd â'r esboniad mwyaf tebygol am ddigwyddiad, ffenomenon neu achos, a'r un gyda'r lleiaf o endidau neu ragdybiaethau.

(2) Mae'r syniad o'r bydysawd (neu'r byd) fel arbrawf mewn gwneud bydysawd a ollyngwyd neu gynnyrch duw prentis ('some .. infant deity) ill dau yn bosibiliadau annhebygol (Rhan V; *Hume on Religion*, t. 142). Os yw'r

bydysawd wedi'i daflu o'r neilltu gan Dduw, mae hynny oherwydd ei natur amherffaith (gan fod Hume eisoes wedi dadlau fod y bydysawd yn amherffaith), sydd wedyn yn codi'r cwestiwn os oedd gan Dduw'r galluoedd a'r pwerau angenrheidiol i ddylunio'r bydysawd yna drwy ymresymiad cyffelyb byddai ganddo'r pwerau i ddod dros yr amherffeithrwydd sy'n dilyn. Byddai'r syniad pellach fod y duwdod yn gwneud prentisiaeth cyn bod yn hollol ddwyfol gyda'i bwerau cysylltiedig yn cael ei wrthod ar bob dealltwriaeth draddodiadol o natur Duw.

(3) Mae'r awgrym fod y byd yn rhedeg, fel dywed Gaskin, 'ar ei ddyfeisiau ei hun', wedi'i adael ar ôl gan Dduw, yn awgrym gwreiddiol, fel y mae'r awgrym fod y sefyllfa hon wedi digwydd yn dilyn marwolaeth Duw (Rhan V; *Hume on Religion*, t. 142). Pa dystiolaeth neu ystyriaethau allai gadarnhau hyn?

Mae'n ymddangos mai'r hyn y mae Hume yn dymuno'i ddangos drwy'r dadleuon hyn yw, hyd yn oed os yw'r ddadl dyluniad yn ddilys, mae esboniadau niferus drwy fodolaeth y drefn a'r pwrpas y mae'r byd yn eu dangos; a'r hyn sy'n bwysig o safbwynt beirniadol Hume yw, o'r hyn a wyddom *ar sail ein profiad o'r byd*, fod unrhyw un o'r esboniadau hyn mor ddilys â'r llall: dim ond un posibilrwydd credadwy yw dylunydd dwyfol; neu os yw'n well gennych, a mwy yn ysbryd Hume, dim ond un o bosibiliadau yr un mor anghredadwy.

**'Mae'n rhaid i'r duwiau gael ffurf ddynol'**

Yn y *Dialogues,* mae Hume yn cyfeirio at honiad cellweirus Eipcurus (hen athronydd Groegaidd) fod 'yn rhaid i dduwiau gael ffurf ddynol' (Rhan V; *Hume on Religion*, t. 142). Mae'r pwynt allweddol yn syml: mae'r cydweddiad yn y ddadl dyluniad rhwng y drefn mewn arteffactau a'r drefn mewn gwrthrychau naturiol yn ein harwain, os yw'r cydweddiad yn argyhoeddi, at asiant sy'n debyg i 'ddyn', eto mae'r holl asiantau dynol rydym ni'n eu hadnabod yn 'gorfforol, ac yn meddu ar lygaid, trwyn, ceg, ayb.' (Rhan V; *Hume on Religion*, t. 142). Yn ôl Hume, mae'r ddadl dyluniad yn gorffen gyda Duw cwbl anthropomorffig, sef Duw sydd fel ni i bob pwrpas. Mae Richard Swinburne (1972, t. 199) yn cyfeirio at hyn felly 'camsyniad y rhy debyg', sef 'honni cyffelybiaethau mewn achosion mewn ffyrdd lle mae'r gwahaniaeth rhwng effeithiau yn awgrymu fod yr achosion yn wahanol hefyd. Yn y bôn mae'r gwahaniaeth mewn effaith rhwng (a) cynhyrchu'r byd a (b) bodau dynol yn cynhyrchu arteffact yn ddigon i eithrio'r syniad fod Duw wedi'i ymgorffori; er bod y ddau wedi'u dylunio. Mae gwahaniaethau mewn effeithiau yn golygu gwahaniaethau yn natur yr achosion. 'The pervasiveness of the natural order means that if an agent is responsible for that, there is no boundary to the region of the universe under his control' (Swinburne, 1972, t. 199).

**Mathau gwahanol o drefn**

Yn Rhan VII y *Dialogues*, mae Hume yn trafod y ddamcaniaeth fod y byd fel organeb byw, a gyflwynodd yn Rhan VI. Ei bwrpas yw awgrymu fod ffynonellau posibl eraill o drefn a phwrpas yn y byd nad ydynt yn gofyn am gyfeiriad at ddylunydd (dwyfol neu oruwchnaturiol).

> Os yw'r bydysawd yn edrych yn debycach i gyrff anifail ac i lysiau nac i weithiau o gelfyddyd ddynol, mae'n fwy tebygol fod ei achos yn debyg i achos y cyntaf na'r ail, a dylai ei darddiad gael ei briodoli i genhedliad

neu lystyfiant yn hytrach na rheswm neu ddyluniad (Rhan VII; *Hume on Religion*, t. 149)

Y broblem gyda’r awgrym hwn yw bod cryn dipyn o wahaniaeth rhwng tarddiad cynnyrch dynol o ganlyniad i ddyluniad a rhai anifeiliaid a llysiau drwy brosesau y mae Hume yn eu galw’n ‘genhedliad’ a ‘llystyfiant’. Yn achos dyluniad dynol, caiff deunyddiau sydd mewn cyflwr anhrefnus eu trawsnewid yn system drefnus, ond yn achos cenhedliad neu lystyfiant nid yw hyn yn wir. Fel y dywedodd Leon Pearl (1970, t. 282):

> Yr hyn a welwn yn hytrach yw proses lle mae cyrff trefnus yn cenhedlu cyrff trefnus eraill. Nid oes dechreuad trefn yma, ond yn hytrach ei drosglwyddiad o un corff i un arall. Mae cenhedliad a llystyfiant yn brosesau trefnus eu hunain, y mae’r ddadl o ddyluniad yn ceisio cyfrif amdanynt.

**Casgliad**

Bu canolbwynt ein trafodaeth ar grynhoi’r prif feirniadaethau a gyflwynodd Hume yn erbyn y ddadl dyluniad. Mae llawer yn dal i’w pleidio’n athronyddol, er bod fersiynau newydd o’r ddadl, er enghraifft, y ‘ddadl rheoleidd-dra’ a’r ‘manwl diwnio’ neu’r ddadl dyluniad ‘anthropig’ mewn llefydd yn osgoi llawer o feirniadaethau Hume, ac mewn llefydd yn gwahodd beirniadaethau newydd a sbardunwyd gan Hume.

Y cwestiwn dyfnach, fodd bynnag, yw a oes angen tystiolaeth a dadleuon i gyfiawnhau cred yn Nuw. Efallai y gellir dirnad Duw yn uniongyrchol drwy brofiad dynol o’r byd a’r bydysawd, fel y mae ôl dyluniad mewn Natur ac yn y bydysawd yn ennyn cred naturiol a chyfiawn mewn Duw dyluniad. Mae’r baich wedyn yn symud i ddadleuon i sefydlu’r ffaith nad oes yna Dduw.

## Geirfa

*anthropomorffig (anthropomorphic)*: priodoli (gosod) nodweddion neu ymddygiad dynol i Dduw neu dduwiau.

*amddiffyniad (defence)*: ymateb (yn y cyd-destun hwn) sy’n ceisio dangos fod Duw yn rhesymegol gyson â bodolaeth drygioni.

*dadl anwythol (inductive argument)*: math o resymu sy’n golygu dod i gasgliad cyffredinol o debygolrwydd o gyfres o arsylwadau penodol.

*yn fod uwchben popeth (maximally great being)*: bod yn berffaith ym mhob ffordd ym mhob byd posibl.

*rhwymedigaethau moesol (moral obligations)*: dyletswydd sydd ar rywun, ac y dylid ei chyflawni.

*hollalluog (omnipotent)*: gallu gwneud popeth.

*hollwybodus (omniscient)*: gwybod popeth.

*hollgariadus (omnibenevolent)*: yn garedig/caru popeth.

*egwyddor cynildeb (principle of parsimony)*: yr egwyddor fod yr esboniad mwyaf credadwy yw symlaf gyda’ lleiaf o endidau neu dybiaethau.

*camsyniad y rhy debyg (supersimilarity fallacy)*: honni cyffelybiaethau mewn achosion lle mae’r gwahaniaeth rhwng yr effeithiau yn awgrymu fod yr achosion yn wahanol hefyd (Swinburne).

*theodiciaeth (theodicy)*: ymateb i’r ddadl ddrygioni sy’n ymdrech i esbonio pam y gall Duw ganiatáu drygioni a dioddefaint.

## Dolenni rhyngrwyd

https://www.youtube.com/watch?v=9NGj6Zk9Wj0&ab_channel=MrMcMillanREvis (MrMcMillanREvis, The Design Argument, part 2)

https://www.youtube.com/watch?v=o_oIkBdA3Q4&ab_channel=CloserToTruth (Robin Collins, What Does a Fine-Tuned Universe Mean?)

https://iep.utm.edu/design/ (Kenneth Einar Himma, Design Arguments for the Existence of God, *Internet Encyclopedia of Philosophy*)

https://infidels.org/library/modern/theism/design.html (Arguments critical of the design inference from *The Secular Web*)

https://plato.stanford.edu/entries/teleological-arguments/ (Del Ratzsch, Teleological Arguments for God’s Existence, *Stanford Encyclopedia of Philosophy*)

## Pwyntiau trafod

1. Ydi Hume yn gor-ddarlunio faint o ddioddefaint a drygioni sydd yn y byd?
2. Pam fod athronwyr theistaidd yn meddwl am Dduw fel diderfyn mewn gwybodaeth, pŵer a daioni?
3. Os nad oes yna Dduw, sut gellir esbonio’r deddfau sy’n weithredol yn y bydysawd?
4. Pa resymau a ellid eu rhoi am gredu ym modolaeth duwiau niferus? Ydyn nhw’n perswadio?
5. Pa fersiwn o’r ddadl dyluniad sydd gryfaf, yn eich barn chi?

## Cyfeiriadau

Ceir nifer o argraffiadau o *Dialogues concerning natural religion* gan Hume. Yn y testun, mae'r tudalennau'n cyfeirio at *Hume on Religion* (1968), a ddewiswyd ac a gyflwynwyd gan Richard Wollheim, London: Collins. Mae'r *Dialogues* ar gael ar y we hefyd, er enghraifft ynt http://www.public-library.uk/pdfs/5/234.pdf.


Craig, William Lane (1979). *The Kalam cosmological argument*. London: Macmillan.

Evans, C. Stephen (2014). *God and moral obligation*. Oxford: Oxford University Press.

Gaskin, John C. A. (1988). *Hume's philosophy of religion*. London: Macmillan.

Hume, David. 1975 [1748]. *An Enquiry concerning human understanding*. Oxford: Oxford University Press.

Meister, Chad (2012). *Evil: A guide for the perplexed*. London: Continuum.

Pearl, Leon (1970). Hume's criticism of the argument from design. *The Monist, 54*(2), 270-284.

Plantinga, Alvin (1967). *God and other minds: A study of the rational justification of belief.* Ithaca, New York: Cornell University Press.

Plantinga, Alvin (1974). *God, freedom and evil*. Ithaca, New York: Harper and Row.

Speak, Daniel (2015). *The problem of evil.* Cambridge: Polity.

Swinburne, Richard (1972). The argument from design: A defence. *Religious Studies*, *8*(3): 193-205.

Swinburne, Richard (1977). *The coherence of theism*. Oxford: Clarendon Press.


*Astudiodd Dr L Philip Barnes athroniaeth yng Ngholeg y Drindod Dulyn. Mae'n Ddarllenydd Emeritws mewn Addysg Grefyddol a Diwinyddol yng Ngholeg King's Llundain. Mae ei ysgrifau diweddar yn cynnwys* Crisis, Controversy and the Future of Religious Education *(Routledge, 2020) ac erthyglau yn y* Journal of Religious Ethics *(2018),* Theology *(2019), British Journal of Educational Studies (2021) a'r* International Journal of Christianity & Education *(2021).*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 18 Gwanwyn 2021
© Leslie J. Francis and Andrew Village

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Ystyried Effaith Covid-19 ar Gristnogaeth yn y DU: Cyfle neu Her?

Leslie J. Francis ac Andrew Village

*Mae'r erthygl hon yn myfyrio ar beth all fod effaith debygol Covid-19 ar arweinwyr eglwysig (clerigwyr), aelodau o'r eglwys (eglwyswyr) a'r dyfodol cyhoeddus gweladwy i eglwysi. Mae'n cynnig pum damcaniaeth am yr effaith.*

*Cysylltiadau â'r fanyleb:*
*EDUQAS/CBAC Opsiwn A: Astudiaeth o Gristnogaeth. Thema 2: Cysyniadau crefyddol a'r bywyd crefyddol. Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt. E. Bywyd crefyddol – y gymuned o gredinwyr: swyddogaeth eglwysi o safbwynt darparu addoliad a sacramentau; dysgeidiaeth grefyddol; cenhadaeth; gwasanaeth ac allgymorth; a chymdeithas ar gyfer y gymuned o gredinwyr. Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol a hanesyddol mewn meddylfryd crefyddol. Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt. D. Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: Datblygiadau hanesyddol mewn meddylfryd crefyddol – her seciwlariaeth: Safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol ar Gristnogaeth yn y DU sy'n gwrthdaro (gwerth ysgolion ffydd Cristnogol; a oes modd galw'r DU yn 'wlad Gristnogol'); credoau sy'n gwrthdaro â chyfraith gwlad; heriau ymddangosiadol i Gristnogaeth (dirywiad yn rôl a statws Cristnogaeth; llai o ddylanwad mewn bywyd cyhoeddus; rhyddid crefyddol cyfyngedig)*

**Cyflwyniad**

Yn nyddiau cynnar 2020, daeth Covid-19 i ddal y byd i gyd yn annisgwyl. Daeth hi'n amlwg fod angen gwneud penderfyniadau cryf a rhoddwyd penderfyniadau ar waith ar fyr rybudd. Yn Lloegr, gosodd y llywodraeth gyfnod clo ar y wlad ar 23 Mawrth 2020. Gan fynd y tu hwnt i ofynion brys y llywodraeth, trannoeth gosododd yr Eglwys yn Lloegr gyfnod clo ar bob un o'i heglwysi. Caewyd eglwysi yn llwyr ar gyfer gwasanaethau a defodau, hyd yn oed gweddïo preifat a hyd yn oed i'r clerigwyr. Yn ôl y canllawiau a gynigiwyd i eglwysi gan yr Eglwys yn Lloegr:

> Mae'n hadeiladau eglwysig o hyn ymlaen felly wedi'u cau ar gyfer addoliad cyhoeddus, gweddïau preifat, a phob cyfarfod a gweithgaredd arall ac eithrio gwasanaethau hanfodol i'r gymuned nes clywir yn wahanol (McGowan, 2020, t. 4)

Dim ond er mwyn cynnig gwasanaethau cymunedol hanfodol (fel banciau bwyd) y gallai eglwysi aros ar agor, eglwysi oedd cyn- Covid yn cynnig gwasanaethau crefyddol hanfodol (fel y cymun bendigaid). Tra'n debyg oedd y sefyllfa yng Nghymru.

Yn sgil cau eglwysi a chyfleoedd eraill am wasanaethau wyneb yn wyneb, ysgogwyd clerigwyr ac arweinwyr eglwysig i fynd i'r afael dros nos â sefydlu presenoldeb ar-lein a darparu gwasanaethau ar amrywiaeth o blatfformau digidol. Gan fod yr adeiladau eglwysig wedi cau, roedd yn rhaid i'r presenoldeb hwn ar-lein ddod o gartrefi'r arweinwyr eu hunain. Enghraifft drawiadol o'r newid arwyddocaol hwn oedd pan fu i Archesgob Caergaint gynnal Ewcharist bore'r Pasg i'r genedl o fwrdd ei gegin, a phan ddechreuodd Deon Cadeirlan Caergaint gynnal y gwasanaethau beunyddiol o ardd y deondy.

Ni chafodd cau eglwysi a symud i ddyfodol ar-lein frwdfrydedd llwyr gan glerigwyr ac aelodau'r Eglwys yn Lloegr. Yn ei olygyddol i'r *Journal of Anglican Studies*, cofnododd McGowan (2020) rywfaint o'r anghytundeb a leisiwyd yn y wasg eglwysig ac ar wefannau unigol. Daeth i'r casgliad hwn:

> Roedd llawer o addolwyr, nid yn unig y clerigwyr, eisiau bod yn gysylltiedig â'r mannau a'r llefydd a oedd yn golygu cymaint iddyn nhw. Roedd aelodau'r Eglwys yn awr yn cael cynnig ffurfiau amgen o weddïo ac addoli, drwy dechnolegau nad oedd bob amser yn gyfarwydd neu'n cael eu croesawu, yn canolbwyntio ar glerigwyr yr oedd eu hwynebau yn ymgnawdoli addoliad personol. Heb gyd-destun carreg a phren a oedd yn mynegi realiti mwy na phersonoliaeth neu deulu, ac yn eu hatgoffa am orffennol a dyfodol y tu hwnt i'r presennol heriol, roedd hyn yn personoli addoli corfforaethol fel nas gwelwyd erioed o'r blaen. (McGowan, 2020, t. 31)

**Myfyrio ar yr effaith**

Un ffordd o geisio rhagweld effaith hirdymor Covid-19 ar arweinwyr yr eglwys (clerigwyr), aelodau'r eglwys (eglwyswyr) a'r dyfodol cyhoeddus gweladwy i eglwysi yw archwilio ymchwil gyfredol ar iechyd a lles eglwysi yng Nghymru a Lloegr, a datblygu damcaniaethau am sut gall ymchwil o'r fath roi cipolwg i ni o'r cyfeiriad i'r dyfodol ar ôl y pandemig.

Drwy archwilio ymchwil ddiweddar, canfuom bum thema benodol oedd yn berthnasol yn ein tyb ni, a dechreusom adeiladau damcaniaethau oedd yn deillio o bob un o'r themâu hyn. Roedd ein pum damcaniaeth fel a ganlyn:

- bydd cau eglwysi yn arwain at bobl yn gadael yr eglwys;
- bydd eglwysi sydd eisoes yn fregus yn mynd yn fwy bregus;
- ni fydd yr henoed sy'n cadw eglwysi ar agor yn dychwelyd;
- gall dynion sydd eisoes yn lleiafrif mewn cynulleidfaoedd eglwys ddigio am eu bod yn cael eu cloi allan o'u heglwysi;
- ni fydd Catholigion yn gwneud mor dda ag Efengylwyr yn ystod cyfnod clo.

Dewch i ni archwilio pob un o'r damcaniaethau hyn yn eu tro.

**Damcaniaeth 1: bydd cau eglwysi yn arwain at bobl yn gadael yr eglwys**

Un o'r pethau oedd yn cael y sylw mwyaf yn ein hymchwil yn y gorffennol oedd ceisio deall y gwahanol gymhellion y tu ôl i bobl yn gadael eglwysi. Roedd ein llyfr ymchwil ar y pwnc hwnnw, *Gone for good?* (Francis & Richter, 2007) yn dwyn ynghyd y canfyddiadau o gyfweliadau ac o arolwg holiadur. Gwnaed cyfweliadau â

75 o unigolion, yn cynnwys eglwyswyr, arweinwyr eglwys a rhai oedd wedi gadael yr eglwys. Gwnaethom 7,195 o alwadau ffôn ar hap i ganfod pobl oedd yn cydnabod eu bod wedi gadael yr eglwys. Drwy hyn daethom o hyd i 1,611 o bobl oedd yn fodlon derbyn ein holiadur: fe'i llenwyd gan 56% ohonynt a'i bostio yn ôl i ni.

Y peth pwysicaf a ddysgom ni o'r arolwg hwn oedd nad oes *un* rheswm i bobl adael eglwysi. Yn wir canfuom 15 o resymau gwahanol, ac roedd rhai o'r rhain am resymau croes i'w gilydd. Er enghraifft, gadawodd rhai pobl eu heglwys am eu bod yn teimlo'i bod yn rhy ryddfrydol, tra bod eraill yn meddwl ei bod yn rhy geidwadol. Eto un rheswm mawr a oedd yn syndod i ni, oedd fod llawer o bobl yn syml wedi mynd allan o'r arfer o fynd. Am ryw reswm, daeth rhywbeth yn eu ffordd a thorri ar draws eu patrwm o fynd i'r eglwys ac ni aethant fyth yn ôl i'r arfer. Dywedodd nifer syfrdanol, 69% o'r rhai a adawodd, 'Es i allan o'r arfer o fynd i'r eglwys'.

Felly roedd cloi'r eglwysi yn ffordd ardderchog i bobl fynd allan o'r arfer o fynd. Roeddem ni'n amau y byddai nifer ddim yn dymuno dod yn ôl.

### Damcaniaeth 2: bydd eglwysi sydd eisoes yn fregus yn mynd yn fwy bregus

Mewn cyfres o astudiaethau diweddar, mae un o'n cydweithwyr, Anne Lawson, wedi sefydlu damcaniaeth yr 'eglwys fregus' (Lawson, 2018, 2019, 2020). Yn ei hymchwil, pwrpas Anne oedd adeiladu ar waith cynharach un arall o'n cydweithwyr, Christine Brewster (2012). Bymtheg mlynedd yn ôl roedd Christine wedi cyfweld clerigwyr cefn gwlad ac wedi gwneud arolwg ar raddfa fawr ymhlith clerigwyr gwledig i asesu'r problemau oedd yn peri straen iddynt. Gwelodd Christine bedwar grŵp o broblemau a oedd yn achosi straen. Disgrifiodd y pedwar hwn fel gor-ymestyn oherwydd amser (gormod o bethau i'w gwneud), anawsterau emosiynol (pethau oedd yn peri gorbryder a rhwystredigaeth), pethau oedd yn ymyrryd â datblygiad yr eglwys a gwrthdaro lleol.

Daeth ymchwil Anne o hyd i'r un math o broblemau ag roedd Christine wedi'u canfod yn gynt, ond canfu Anne hefyd grŵp arall o broblemau nad oedd wedi dod i'r amlwg yn ymchwil cynharach Christine. Disgrifiodd Anne y grŵp hwn o broblemau fel 'arwyddion eglwysi bregus'. Roedd y clerigwyr yn poeni fod eu heglwysi yn mynd yn rhy wan i oroesi. Nododd Anne bum arwydd craidd o eglwysi bregus, fel roedd y clerigwyr yn eu gweld. Y ddau arwydd cryfaf oedd ofn rhedeg allan o arian ac ofn arweinwyr lleyg lleol allweddol yn dod i ben a neb yn barod i gymryd eu lle.

Ac felly roedd cloi eglwysi yn ffordd ardderchog o gyflymu'r ddau arwydd yma o fregusder. Gan fod llawer o'r arian sydd ei angen i gadw eglwysi i fynd yn dod oddi wrth y bobl sy'n mynychu, mae cloi'r drysau yn debygol o gael effaith ar incwm. Gan y bydd y bobl leol sy'n cadw eglwysi i fynd yn debygol o fynd allan o'r arfer o wneud hynny, mae cloi'r drysau yn debygol hefyd o gael effaith ar gynnal gwirfoddolwyr.

### Damcaniaeth 3: ni fydd yr henoed sy'n cadw eglwysi ar agor yn dychwelyd

Mae un o'n cydweithwyr eraill, Albert Jewell, wedi bod â diddordeb hir yn lle pobl hŷn mewn eglwysi (gweler Jewell, 2001, 2004). Wrth lunio'r arolwg fe ystyrion ni ddau ganfyddiad pwysig am le pobl hŷn mewn eglwysi. Yn yr *UK church statistics: 2021 edition*, adroddodd Peter Brierley, tra yn 1979 roedd 19% o eglwyswyr Anglicanaidd yn 65 oed neu drosodd, cododd y gyfran o'r grŵp

oedran hwn wedyn i 22% yn 1989, 28% yn 1999, 35% yn 2005 a 40% yn 2015. Yn amlwg, mae'r Eglwys yn dibynnu fwy a mwy ar aelodau hŷn i gadw i fynd. Roedd y canfyddiadau o un o'n harolygon a wnaed yn 2001 ac a gyhoeddwyd yn ein llyfr *Fragmented faith* (Francis, Robbins, & Astley, 2005) yn tynnu sylw at ffyrdd yr oedd pobl hŷn yn teimlo'n anghyffyrddus â'r newidiadau ym mywyd yr eglwys. Er enghraifft, roedd eglwyswyr hŷn yn llai tebygol o gael eu helpu yn eu ffydd gan ffurfiau gwasanaeth newydd (37% o'i gymharu â 55%), yn llai tebygol o fod o blaid derbyn plant i'r cymun cyn cael bedydd esgob (38% o'i gymharu â 56%), yn llai tebygol o fod o blaid ordeinio menywod yn esgobion (53% o'i gymharu â 71%), yn llai o blaid caniatáu i bobl oedd wedi ysgaru fod yn esgobion (29% o'i gymharu â 57%) ac yn llai tebygol o deimlo y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau eu heglwysi (51% o'i gymharu â 61%).

Cafodd y pandemig effaith arbennig o rymus ar bobl saith deg oed a throsodd a oedd yn cael eu hystyried y mwyaf agored i ganlyniadau marwol y feirws. Roedd y rheiny oedd yn 70 oed a throsodd wedi cael eu cynghori i warchod ac mae'n bosibl eu bod wedi paratoi at y daith hir o hunan-ynysu, gan osgoi gweithgareddau grŵp a chysylltiad dynol. Felly gallai'r cyngor hwn i warchod fod wedi bod yn ffordd ddelfrydol o dorri arfer oes o fynd i'r eglwys. Mae'n bosibl fod yr henoed wedi cael eu heffeithio'n arbennig drwy gael eu gwahanu'n orfodol o'r eglwys leol.

**Damcaniaeth 4: gall dynion sydd eisoes yn lleiafrif mewn cynulleidfaoedd eglwys ddigio am eu bod yn cael eu cloi allan o'u heglwysi**

Gall ymwelwyr â gwasanaethau eglwysig mewn enwadau prif ffrwd, fel yr Eglwys yn Lloegr, gael eu taro gan y modd y mae menywod yn fwy niferus na dynion, gydag oddeutu dwy fenyw am bob un dyn sy'n bresennol. Mewn astudiaeth gynnar, *Church watch*, Francis (1996) cafywdd arsylwyr eu hyfforddi i fynychu bron i 200 o wasanaethau eglwysig a disgrifio'r hyn a welsant. Yn gyffredinol roedd eu data yn cadarnhau'r gymhareb hon o ddwy ferch i bob un dyn. Yn fwy diweddar, adroddodd Francis a Lankshear (2021) ar arolwg holiadur lle cymerwyd rhan gan 348 o'r 360 eglwys yn Esgobaeth Anglicanaidd Southwark. O'r 31,521 o holiaduron a lenwyd, roedd 65% gan fenywod.

Yn ein hastudiaeth gynharach, *Fragmented Faith*, tynnodd Francis, Robbins, ac Astley (2005) sylw at y ffaith fod y dynion oedd yn mynychu'r eglwys yn llai tebygol na'r menywod i fod eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a luniwyd i ddatblygu ffydd, megis grwpiau trafod, grwpiau astudio'r Beibl neu grwpiau gweddi. Roedd dynion yn llai tebygol hefyd o droi at aelodau eraill eu heglwysi pan roedd angen help arnynt. Roedd dynion yn llai tebygol o gael eu helpu yn eu ffydd gan ffurfiau newydd o wasanaethau neu gan emynau newydd. Roedd dynion yn llai tebygol o fod â ffydd yn yr arweiniad a roddwyd gan y Synod Cyffredinol, neu gan Gyngor yr Archesgobion. Roedd dynion yn fwy tebygol o gefnogi datgysylltu Eglwys Loegr.

Efallai, felly, fod y penderfyniad sydyn gan awdurdodau'r eglwys i fynnu cloi'r eglwysi wedi cael ei herio'n fwy parod gan eglwyswyr gwrywaidd nag eglwyswyr benywaidd.

**Damcaniaeth 5: Ni fydd Catholigion yn gwneud mor dda ag Efengylwyr yn ystod y cyfnod clo**

Digwyddodd rhaniad mawr mewn Cristnogaeth Orllewinol yn yr unfed ganrif ar bymtheg rhwng y traddodiad Catholig

sefydledig a'r traddodiad Diwygiedig (Protestannaidd) newydd. Roedd y gwahaniaethau rhwng y traddodiad Catholig a'r traddodiad Diwygiedig i'w gweld yn amlwg o ran credoau ac arferion, ac o ran arweinyddiaeth a litwrgi. Daeth Eglwys Loegr allan o'r Diwygiad fel Eglwys a oedd yn cyfuno llinynnau o'r traddodiad Catholig (fel esgobion) â llinynnau o'r traddodiad Diwygiedig (fel torri i ffwrdd o Rufain). Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth y rhaniad hwn rhwng gwreiddiau Catholig a Diwygiedig Eglwys Loegr yn llawer mwy amlwg gydag ymddangosiad Mudiad Rhydychen a oedd yn pwysleisio'r gwreiddiau Catholig (Hylson-Smith, 1993), a'r Mudiad Efengylaidd, a oedd yn pwysleisio'r gwreiddiau Diwygiedig (Hylson-Smith, 1988).

Gellid gweld y gwahaniaethau gweledol rhwng Mudiad Rhydychen a'r Mudiad Efengylaidd yn: arddull adeiladau'r eglwys (Mudiad Rhydychen yn rhoi mwy o bwyslais ar yr allor a'r Mudiad Efengylaidd yn rhoi mwy o bwyslais ar y pulpud), ac arddull y gwasanaethau eglwysig (Mudiad Rhydychen yn rhoi mwy o bwyslais ar ddathlu'r cymun a'r Mudiad Efengylaidd yn rhoi mwy o bwyslais ar bregethu). Mae'r gwahaniaethau mewn pwyslais wedi parhau.

Un o brif ganlyniadau cloi'r eglwysi oedd symud i addoli ar-lein. Roedd gwasanaethau oedd wedi'u seilio ar bregethu yn cael y symud i ddarpariaethau ar-lein yn haws na gwasanaethau oedd wedi'u seilio ar ddathlu'r cymun. Roedd hyn yn wir am ddau reswm. I ddechrau, yn y traddodiad Anglo-Gatholig (etifedd Mudiad Rhydychen) mae'r gwasanaeth cymun wedi'i gysylltu'n glos â phensaernïaeth yr adeilad. Mae'r allor yn bwysig iawn ac felly hefyd y ddefod a'r symud sy'n gysylltiedig â'r allor. Mae'n anodd atgynhyrchu seremoni a symudiad y math hwn o litwrgi o amgylch bwrdd y gegin (hyd yn oed ym Mhalas Lambeth, cartref swyddogol Archesgob Caergaint yn Llundain). Yn ail, mae credoau'r gwasanaeth cymun am y bara a'r gwin yn chwarae rhan bwysig. Mae'r credoau hyn yn cysylltu'r bara a'r gwin yn agos at weithgaredd y llywydd awdurdodedig yn y gwasanaeth (yr offeiriad). Mae'r traddodiad Anglo-Gatholig yn ei chael yn anodd dychmygu sut gall pobl gymryd rhan lawn mewn gwasanaeth cymun a gyflwynir ar-lein i'w cartrefi eu hunain.

Felly gall y trawsnewid i wasanaethau ar-lein fod wedi bod yn fwy anodd i Anglo-Gatholigion ei groesawu.

## Pwyntiau trafod

1. Beth ydych chi'n rhagweld fydd effaith y pandemig ar gyflymu pobl yn gadael yr eglwys ac ar le Cristnogaeth yn y DU?
2. Beth ydych chi'n meddwl fydd canlyniadau'r ddamcaniaeth eglwys fregus i'r DU fel 'gwlad Gristnogol'?
3. Beth ydych chi'n credu fydd canlyniadau effaith y pandemig ar eglwyswyr hŷn o ran y gwasanaeth ac allgymorth eglwysi lleol (dyweder drwy fanciau bwyd)?
4. Beth ydych chi'n credu fydd y canlyniad i rôl gymdeithasol eglwysi os yw llai o ddynion yn cymryd rhan yn y dyfodol?
5. Beth ydych chi'n meddwl fydd canlyniad safbwyntiau gwahanol Anglo-Gatholigion ac Efengylwyr am rôl eglwysi Anglicanaidd yn darparu addoli a sacramentau ar ôl y pandemig?

## Cyfeiriadau


Brewster, C.E. (2012). The fate of the rural Anglican clergy: Caring for more churches and experiencing higher levels of stress. In *Religious identity and national heritage: Inspired-theological perspectives* (pp. 149-169). Eds. F.V. Anthony & H. Ziebertz, London: Brill.

Francis, L.J. (1996). *Church watch: Christianity in the countryside.* London: SPCK.

Francis, L.J., & Lankshear, D. W. (2021). *The science of congregation studies.* New York: Palgrave Macmillan.

Francis, L.J., & Richter, P. (2007). *Gone for good? Church-leaving and returning in the twenty-first century.* Peterborough: Epworth.

Francis, L.J., Robbins, M., & Astley, J. (2005). *Fragmented faith? Exposing the fault-lines in the Church of England.* Carlisle: Paternoster.

Hylson-Smith, K. (1988). *Evangelicals in the Church of England 1734-1984.* Edinburgh: T & T Clark.

Hylson-Smith, K. (1993). *High Churchmanship in the Church of England: From the sixteenth century to the late twentieth century.* Edinburgh: T & T Clark.

Jewell, A. (Ed.) (2001). *Older people and the church.* London: Methodist Publishing House.

Jewell, A. (Ed.) (2004). *Ageing, spirituality and wellbeing.* London: Jessica Kingsley Publications.

Lawson, S.A. (2018). Identifying stressors among rural Church of England clergy with responsibility for three or more churches. *Rural Theology, 16,* 101-111.

Lawson, S.A. (2019). Research report: The marks of the fragile rural church. *Rural Theology, 17,* 51-57.

Lawson, S.A. (2020). Cracked pots: The lived experience of Church of England clergy with responsibility for fragile rural churches. *Rural Theology, 18,* 27-36.

McGowan, A. (2020). Communion and pandemic. *Journal of Anglican Studies, 18*(1), 2-8.

*Mae'r Parchedig Ganon yr Athro Leslie J. Francis yn Athro Crefyddau a Seicoleg yn y Ganolfan Datblygiad Addysgol, Arfarniad ac Ymchwil ym Mhrifysgol Warwick yn Coventry.*

*Mae'r Parchedig Athro Andrew Village yn Athro Diwinyddiaeth Ymarferol ac Empirig yn yr Ysgol Dyniaethau, Crefydd ac Athroniaeth ym Mhrifysgol York St John, yn Efrog.*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 18 Gwanwyn 2021
© Leslie J. Francis and Andrew Village

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Asesu Effaith Covid-19 ar Gristnogaeth yn y DU: Cyfle neu Her?

Leslie J. Francis ac Andrew Village

*Mae'r erthygl hon yn tynnu ar ganfyddiadau arolwg ar-lein, oedd yn fyw rhwng 8 Mai a 23 Gorffennaf 2020, a luniwyd i asesu effaith Covid-19 ar arweinwyr eglwysig (clerigwyr) ac aelodau eglwysi (eglwyswyr). A oedden nhw'n teimlo fod y pandemig wedi cynnig cyfle neu heriau i ddyfodol eu heglwysi?*

*Cysylltiadau â'r fanyleb:*
*EDUQAS/CBAC Opsiwn A: Astudiaeth o Gristnogaeth. Thema 2: Cysyniadau crefyddol a'r bywyd crefyddol. Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt. E. Bywyd crefyddol – y gymuned o gredinwyr: swyddogaeth eglwysi o safbwynt darparu addoliad a sacramentau; dysgeidiaeth grefyddol; cenhadaeth; gwasanaeth ac allgymorth; a chymdeithas ar gyfer y gymuned o gredinwyr. Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol a hanesyddol mewn meddylfryd crefyddol. Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt. D. Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: Datblygiadau hanesyddol mewn meddylfryd crefyddol – her seciwlariaeth: Safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol ar Gristnogaeth yn y DU sy'n gwrthdaro (gwerth ysgolion ffydd Cristnogol; a oes modd galw'r DU yn 'wlad Gristnogol'); credoau sy'n gwrthdaro â chyfraith gwlad; heriau ymddangosiadol i Gristnogaeth (dirywiad yn rôl a statws Cristnogaeth; llai o ddylanwad mewn bywyd cyhoeddus; rhyddid crefyddol cyfyngedig)*

**Cyflwyniad**

Yn ein papur cynharach fe gynigion ni bum damcaniaeth ynghylch effaith bosibl Covid-19 ar arweinwyr eglwysig (clerigwyr), aelodau eglwysi (eglwyswyr) a'r dyfodol cyhoeddus gweladwy i eglwysi. Roedd ein pum damcaniaeth fel a ganlyn:

- bydd cau eglwysi yn arwain at bobl yn gadael yr eglwys;
- bydd eglwysi sydd eisoes yn fregus yn mynd yn fwy bregus;
- ni fydd yr henoed sy'n cadw eglwysi ar agor yn dychwelyd;

- gall dynion sydd eisoes yn lleiafrif mewn cynulleidfaoedd eglwys ddigio am eu bod yn cael eu cloi allan o'u heglwysi;
- ni fydd Catholigion yn gwneud mor dda ag Efengylwyr yn ystod cyfnod clo.

Roedd pob un o'r damcaniaethau hyn wedi'u gwreiddio mewn trafodaeth a gwerthusiad o lenyddiaeth ddiweddar (gweler Francis & Village, 2021a).

Y brif broblem gyda'n pum damcaniaeth yw'r union ffaith mai dim ond damcaniaethau oeddynt. Mae damcaniaethau fel hyn yn tueddu i gael eu profi yn erbyn tystiolaeth. Mewn un ystyr, dim ond mewn deng mlynedd y byddwn ni wir yn gwybod am effaith y pandemig ar eglwysi, wrth edrych yn ôl drwy sbectol haneswyr. Mewn ystyr arall, serch hynny, gallwn geisio edrych ymlaen yn well drwy fynd trwy'r cyfnod clo a byw ochr yn ochr â phrofiad y pandemig. Dyma'r hyn y ceision ni ei wneud drwy'r arolwg *Coronavirus, Church & You*.

**Arolwg y Coronafeirws, yr Eglwys a Chi**

Gan sylweddoli y byddai, yn yr hirdymor, o gymorth i'r eglwys wybod sut gwnaeth y pandemig (ac ymateb yr eglwys i'r pandemig) effeithio ar glerigwyr ac eglwyswyr, fe lansion ni arolwg o'r enw the *Coronavirus, Church and You* ar ddechrau Mai 2020. Gosodwyd yr arolwg ar blatfform ar-lein (ar Qualtrics) a'i hysbysu dryw'r wasg eglwysig. Fe adeiladon ni ar ein profiad da blaenorol o weithio gyda'r *Church Times*, papur newydd wythnosol a ddarllenir gan Anglicaniaid yn bennaf, a gyda help cydweithwyr ymestynnwyd yr arolwg dryw'r Eglwysi Catholig, Bedyddwyr a Methodistiaid. Erbyn i'r arolwg gau ym mis Gorffennaf, roedd dros 10,000 o bobl wedi cymryd rhan. Gan fod dros hanner y rhain yn dweud eu bod yn Anglicaniaid yn byw yn Lloegr, fe benderfynon ni ganolbwyntio'n dadansoddiadau cychwynnol ar y grŵp hwn.

Pan luniwyd yr arolwg, roedd gennym ein set o bum cwestiwn ymchwil wedi'u diffinio'n dda mewn golwg, wedi'u siapio gan ein hymchwil blaenorol ymhlith eglwyswyr a'r rhai oedd wedi gadael yr eglwys. Ein nod yn awr, yn y papur hwn, yw tynnu ar ymatebion y cyfranogwyr hynny oedd yn nodi eu bod yn Anglicaniaid yn byw yn Lloegr, er mwyn profi'r pum damcaniaeth a helpodd i ffurfio'r arolwg. Wrth wneud hyn byddwn yn gwahaniaethu rhwng ymatebion clerigwyr ac ymatebion lleygwyr oherwydd rydym yn amau y bydd yr atebion hyn yn wahanol ar amryw o faterion, gan mai dyna a welsom yn ein hastudiaeth gynharach a drafodwyd yn *Fragmented Faith* (Francis, Robbins, & Astley, 2005).

Wrth restru'n damcaniaethau, fe gyflwynon ni'r ddamcaniaeth am ymadawyr yr eglwys gyntaf, oherwydd roedd hyn yn ein helpu i gadw'n sylw ar y damcaniaethau eraill. Y tro hwn, wrth archwilio'r data, byddwn yn gadael y ddamcaniaeth am y rhai sy'n gadael yr eglwys tan y diwedd, oherwydd bydd hynny'n dwyn ynghyd y pedair set arall o ddata.

***Damcaniaeth yr eglwys fregus***

Roedd dau gwestiwn yn yr arolwg a luniwyd i brofi damcaniaeth yr eglwys fregus, fel y'u ffurfiwyd gan Lawson (2018, 2019, 2020). Gwahoddwyd y cyfranogwyr i asesu effaith y pandemig ar yr Eglwys yn y tymor hir:

- Ni fydd ein hadeiladau eglwysig yn ariannol hyfyw
- Bydd lleygwyr allweddol yn ymddeol a bydd hi'n anodd cael rhai yn eu lle

Yn ogystal â gwahaniaethu rhwng clerigwyr a lleygwyr, gwahaniaethwyd hefyd rhwng pedwar lleoliad daearyddol: gwledig, trefol, maestrefol, a dinesig.

Mae'r data a gyflwynir yn *tabl 1* (gweler y **RHESTR TABLAU**) yn ei gwneud yn glir fod gan y clerigwyr olwg mwy pesimistaidd am y dyfodol na'r lleygwyr. Roedd gan y clerigwyr a'r lleygwyr fel ei gilydd mewn eglwysi gwledig olwg mwy pesimistaidd na'r rheiny oedd yn gysylltiedig ag eglwysi mewn ardaloedd eraill.

Yn erbyn y data yma, mae effaith y pandemig ar eglwysi gwledig yn ymddangos yn ddifrifol iawn. Mae un o bob tri chlerigwr gwledig yn ofni na fydd adeiladau eu heglwys yn ariannol hyfyw ar ôl y pandemig (34%) a bron cynifer yn ofni y bydd lleygwyr allweddol yn ymddeol ac yn anodd cael rhai yn eu lle (29%). Mae bron i chwarter eglwyswyr mewn ardaloedd gwledig yn cytuno. Dyma ddarlun o eglwysi bregus yn rhedeg yn isel ar adnoddau ac yn isel ar adnoddau dynol. Ceir data a thrafodaeth pellach gan Francis, Village, a Lawson (2021).

### *Yr henoed a'r eglwys*

Roedd dau set o gwestiynau yn yr arolwg a oedd yn datgelu gwahaniaethau amlwg rhwng ymatebon y rhai saith deg oed a hŷn, a'r rheiny o dan chwe deg, yn tynnu ar fewnwelediad a gafwyd gan Jewell (2001, 2004). Roedd y ddwy set o eitemau yn ymwneud ag:

- Agweddau tuag at yr eglwysi fel lle lleol a man cysegredig
- Agweddau tuag at y dyfodol ar-lein

Ar gyfer yr adran hon rydym yn cymharu ymatebion dau grŵp o leygwyr, y rhai 70 oed a throsodd a'r rhai o dan 60. Rydym yn tynnu sylw at y cyferbyniad drwy adael allan y rhai sy'n eu chwedegau.

Mae'r set o dair eitem yn *tabl 2* yn edrych ar agwedd tuag at eglwysi fel lle lleol a man cysegredig. I'r tair eitem, roedd yr eglwyswyr hŷn 70 oed a throsodd yn dangos agwedd fwy cadarnhaol at adeilad yr eglwys ac felly roeddent yn llai hapus gyda'r cyfnod clo a'r cloi allan. Tra bod 25% o'r grŵp oedran iau yn mynnu y dylai eglwysi aros ar agor beth bynnag fo'r argyfwng, cynyddodd y gyfran i 35% o'r grŵp hŷn. Roedd 61% o'r grŵp iau yn honni y dylid bod amser ganiatáu mynediad i glerigwyr i'w heglwysi, cododd y gyfran i 68% o'r grŵp hŷn. Tra bod 54% o'r grŵp iau yn mynnu mai cau eglwysi i bawb oedd y peth iawn i wneud, disgynnodd y gyfran i 42% o'r grŵp hŷn.

Mae'r set o dair eitem yn *tabl 3* yn hoelio sylw ar agwedd tuag at y dyfodol ar-lein. Ar hyd y tair eitem roedd gan yr eglwyswyr hŷn, saith deg oed a throsodd, agwedd lai cadarnhaol tuag at y dyfodol ar-lein. Tra bod 49% o'r grŵp iau yn ystyried fod y cyfryngau cymdeithasol yn offeryn bugeiliol ardderchog, disgynnodd y gyfran i 35% o'r grŵp hŷn. Tra bod 47% o'r grŵp iau yn ystyried fod y cyfryngau cymdeithasol yn offeryn efengylu gwych, disgynnodd y gyfran i 32% o'r grŵp hŷn. Tra bod 38% o'r grŵp iau yn credu y bydd mwy o waith bugeiliol yn cael ei wneud ar-lein, dim ond 27% o'r grŵp hŷn oedd yn credu hynny. Ceir data a thrafodaeth pellach gan Francis and Village (2021b).

### *Dynion a'r eglwys*

Roedd dau set o gwestiynau yn yr arolwg a ddatgelodd wahaniaeth clir rhwng eglwyswyr gwrywaidd ac eglwyswyr benywaidd, oedd yn tynnu ar y sylweddoliad bod tueddiad i weld dwy ferch am bob un dyn mewn cynulleidfaoedd (Francis, 1996; Francis & Lankshear, 2021). Roedd y ddwy set hyn yn cynnwys:

- Asesu ymatebon yr Eglwys genedlaethol ac eglwysi lleol yn ystod y cyfnod clo
- Croesawu'r dyfodol digidol

Lluniwyd y set gyntaf o dair eitem yn *tabl 4* i archwilio'r ffordd yr oedd eglwyswyr yn pwyso a mesur ymatebion yr Eglwys genedlaethol ac eglwysi lleol yn ystod y cyfnod clo. Mae'r data'n dangos yn glir fod dynion yn barnu ymatebion yr eglwysi yn genedlaethol a lleol yn llai ffafriol na menywod. Roedd mwy na dwy ran o bump (42%) o'r menywod yn teimlo fod eu henwad ar y lefel genedlaethol wedi ymateb yn dda i'r argyfwng, ond disgynnodd y gyfran i 30% ymhlith dynion. Tra bod 43% o'r menywod yn teimlo fod eu henwad ar y lefel genedlaethol wedi gwneud gwaith da i'n harwain mewn gweddi, disgynnodd y gyfran i 29% ymhlith dynion. Tra bod 62% o'r menywod yn teimlo fod yr eglwysi yn eu hardal wedi ymateb yn dda i'r argyfwng, disgynnodd y gyfran o 48% o'r dynion.

Lluniwyd yr ail set o'r tair eitem a gyflwynir yn *tabl 5* i archwilio agwedd eglwyswyr tuag at y newid cyfeiriad sydyn i'r oes ddigidol yn ystod y cyfnod clo. Mae'r data'n glir fod y dynion yn ystyried y symud i'r oes ddigidol yn llai cadarnhaol na'r menywod. Tra bod traean o'r menywod (35%) yn ystyried fod cau'r eglwysi wedi'n gorfodi i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir, disgynnodd y gyfran i 26% o'r dynion. Tra bod 77% o'r menywod yn ystyried fod y cyfnod clo wedi helpu'r eglwys i symud i'r oes ddigidol, disgynnodd y gyfran i 69% ymhlith y dynion. Tra bod 72% o'r menywod yn cytuno y bu'n beth da gweld clerigwyr yn darlledu o'u cartref, disgynnodd y gyfran i 59% o'r dynion. Ceir data a thrafodaeth pellach gan Francis a Village (o dan adolygiad a).

### *Catholigion ac Efengylwyr*

Roedd dau gwestiwn yn yr arolwg a luniwyd i brofi'r ddamcaniaeth y byddai clerigwyr Anglo-Gatholig a lleygwyr yn cymryd safbwynt gwahanol ar wasanaethau cymun ar-lein, o'u cymharu â chlerigwyr a lleygwyr Efengylaidd (Hylson-Smith, 1988, 1993). Roedd y cwestiwn cyntaf yn edrych ar yr agwedd tuag at glerigwyr yn gweinyddu'r cymun gartref heb gynulleidfa. Yn hanesyddol, roedd Efengylwyr yn erbyn offeiriaid yn gweinyddu'r cymun ar eu pennau eu hunain. Roedd yr ail gwestiwn yn edrych ar agweddau tuag at bobl gartref yn derbyn cymun drwy eu bara a'u gwin eu hunain. Yn hanesyddol, mae'r Eglwys wedi mynnu pwysigrwydd y cysylltiad corfforol rhwng yr offeiriaid a'r gymuned sydd wedi dod ynghyd i ddathlu'r cymundeb.

- Mae'n iawn i glerigwyr weinyddu'r cymun gartref os ydynt yn darlledu'r gwasanaeth i eraill
- Mae'n iawn i bobl gartref dderbyn cymun drwy eu bara a'u gwin eu hunain fel rhan o wasanaeth cymun ar-lein

I'r adran hon, credem eu bod yn bwysig cymharu ymatebion y clerigwyr a'r lleygwyr.

Mae'r data a gyflwynir yn *tabl 6* yn gwneud dau bwynt clir. Y pwynt cyntaf yw bod gwahaniaethau amlwg rhwng Anglicaniaid Catholig a rhai Efengylaidd, o ran y clerigwyr a'r lleygwyr. Tra bod Anglo-Gatholigion yn rhoi mwy o gefnogaeth i glerigwyr sy'n gweinyddu'r cymun gartref os ydynt yn darlledu'r gwasanaeth i eraill, mae Efengylwyr yn rhoi mwy o gefnogaeth i bobl sy'n derbyn cymun drwy eu bara a'u gwin eu hunain fel rhan o wasanaeth cymun ar-lein. Mae'r ddau wahaniaeth yma yn cyd-fynd â'r pwysigrwydd uwch y mae Catholigion yn ei roi i sacrament y cymun bendigaid. Mae'n bwysicach i Gatholigion ddathlu a mynychu gwasanaethau cymun, er mwyn diogelu integriti'r sacrament a pheidio gadael iddo gael ei lastwreiddio gan bobl yn meddwl mai eu bara a'u gwin nhw yw

corff a gwaed Crist.

Yr ail bwynt sy'n ymddangos o'r data hwn yw bod safbwyntiau clerigwyr Anglo-Gatholig a chlerigwyr Efengylaidd yn bellach i ffwrdd na safbwyntiau lleygwyr Anglo-Gatholig a lleygwyr Efengylaidd. Mae materion diwinyddol manwl fel hyn yn bwysicach i'r clerigwyr. Ceir data a thrafodaeth pellach gan Francis a Village (o dan adolygiad b).

***Rhai sy'n gadael yr Eglwys***

Yn yr astudiaeth gynharach, *Gone for Good?* gan Francis a Richter (2007), dywedodd saith allan o bob deg o'r rhai oedd wedi gadael yr eglwys eu bod yn syml wedi mynd allan o'r arfer o fynd i'r eglwys (69%). Gyda'r cyfnod clo wedi bod mewn grym, am dros flwyddyn, fwy neu lai, bydd llawer o eglwyswyr wedi colli'r arfer o fynd i'r eglwys ac mae'n bosibl na fydd rhai o'r rheiny'n dychwelyd.

Mae canlyniadau'r arolwg *Coronavirus, Church & You* yn awgrymu efallai fod rhai grwpiau o eglwyswyr wedi cael eu taro'n waeth nag eraill, yn enwedig dynion, yn enwedig y rhai 70 oed a throsodd, ac yn enwedig Anglo-Gatholigion. Mae'n rhesymol tybio mai'r rheiny a gafodd yr ergyd galetaf fydd y mwyaf cyndyn o ddychwelyd. Os felly, gall y gymhareb rhwng dynion a menywod yn y seddau fod hyd yn oed yn fwy llydan; gall y genhedlaeth hŷn fod yn diosg eu cyfrifoldebau yn eu heglwysi lleol ac yn darganfod nad oes neb i'w hysgwyddo yn eu lle; a gall Anglo-Gatholigion fod yn encilio, gan ildio'r ffordd i Efengylwyr arwain yr Eglwys i'r dyfodol anhysbys.

# Y RHESTR TABLAU

| **Tabl 1** ***Asesu effaith Covid-19 yn ôl lleoliad (canran yn cytuno)*** | Gwledig % | Tref % | Maes-tref % | Dinesig % |
|---|---|---|---|---|
| *Clerigwyr* | | | | |
| Ni fydd ein hadeiladau eglwysig yn ariannol hyfyw | 34 | 20 | 18 | 24 |
| Lleygwyr allweddol yn ymddeol a bydd yn anodd cael pobl yn eu lle | 29 | 24 | 23 | 20 |
| *Lleygwyr* | | | | |
| Ni fydd ein hadeiladau eglwysig yn ariannol hyfyw | 22 | 16 | 15 | 8 |
| Lleygwyr allweddol yn ymddeol a bydd yn anodd cael pobl yn eu lle | 23 | 16 | 17 | 18 |

| **Tabl 2** ***Agwedd tuag at eglwysi fel lle lleol a man cysegredig yn ôl oedran (canran yn cytuno)*** | < 60 % | 70+ % |
|---|---|---|
| Dylai eglwysi aros ar agor beth bynnag yw'r argyfwng | 25 | 36 |
| Dylai clerigwyr gael mynediad i'w heglwysi bob amser | 61 | 68 |
| Cau'r eglwysi i bawb oedd y peth iawn i'w wneud | 53 | 42 |

| **Tabl 3** ***Agwedd tuag at y dyfodol ar-lein yn ôl oedran (canran yn cytuno)*** | < 60 % | 70+ % |
|---|---|---|
| Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn offeryn bugeiliol gwych | 49 | 35 |
| Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn offeryn efengylaidd gwych | 47 | 32 |
| Bydd mwy o waith bugeilio yn cael ei wneud ar-lein | 38 | 27 |

| **Tabl 4** ***Asesu ymatebion yr Eglwys genedlaethol a'r eglwysi lleol yn ystod y cyfnod clo fesul rhyw (canran yn cytuno)*** | Menywod % | Dynion % |
|---|---|---|
| Ar y lefel genedlaethol mae fy enwad wedi ymateb yn dda i'r argyfwng | 42 | 30 |
| Ar y lefel genedlaethol mae fy enwad wedi gwneud gwaith da i'n harwain mewn gweddi | 43 | 29 |
| Mae'r eglwysi yn fy ardal wedi ymateb yn dda i'r argyfwng | 62 | 48 |

| **Tabl 5** ***Croesawu'r oes ddigidol fesul rhyw (canran yn cytuno)*** | Menywod % | Dynion % |
|---|---|---|
| Mae gorfod cau eglwysi wedi gwneud i ni ganolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir | 35 | 26 |
| Mae'r cyfnod clo wedi helpu'r eglwys i symud i'r oes ddigidol | 77 | 69 |
| Bu'n beth da gweld clerigwyr yn darlledu o'u cartrefi | 72 | 59 |

| **Tabl 6** ***Safbwyntiau am y gwasanaeth cymun ar-lein yn ôl traddodiad yr eglwys (canran yn cytuno)*** | Cathol % | Efengyl % |
|---|---|---|
| *Clerigwyr* | | |
| Mae'n iawn i glerigwyr ddathlu'r cymun gartref os ydynt yn darlledu'r gwasanaeth i eraill | 70 | 39 |
| Mae'n iawn i bobl gartref dderbyn cymun trwy eu bara a'u gwin eu hunain fel rhan o wasanaeth cymun ar-lein | 18 | 41 |
| *Lleygwyr* | | |
| Mae'n iawn i glerigwyr ddathlu'r cymun gartref os ydynt yn darlledu'r gwasanaeth i eraill | 46 | 31 |
| Mae'n iawn i bobl gartref dderbyn cymun trwy eu bara a'u gwin eu hunain fel rhan o wasanaeth cymun ar-lein | 26 | 62 |

Nodyn: Cathol = Anglo-Gatholig; Efengyl = Efengylaidd

## Pwyntiau trafod

1. Pam fyddai damcaniaeth yr eglwys fregus yn fwy amlwg yng nghefn gwlad efallai?
2. Pam ydych chi'n meddwl fod pobl hŷn fwy yn erbyn cloi eglwysi yn ystod y pandemig?
3. Pam ydych chi'n meddwl fod dynion yn fwy beirniadol o'r ffordd y gwnaeth Eglwys Loegr ymateb i'r pandemig?
4. Sut ydych chi'n esbonio'r safbwyntiau gwahanol am y cymun sy'n cael eu harddel gan glerigwyr Anglo-Gatholig ac Efengylaidd?
5. Os yw pobl wir wedi colli'r arfer o fynd i'r eglwys oherwydd y cyfnod clo, beth mae hyn yn ei ddweud am eu ffydd Gristnogol?

## Cyfeiriadau


Francis, L.J. (1996). *Church watch: Christianity in the countryside.* London: SPCK.

Francis, L.J., & Lankshear, D. W. (2021). *The science of congregation studies.* New York: Palgrave Macmillan.

Francis, L.J., & Richter, P. (2007). *Gone for good? Church-leaving and returning in the twenty-first century*. Peterborough: Epworth.

Francis, L.J., Robbins, M., & Astley, J. (2005). *Fragmented faith? Exposing the fault-lines in the Church of England.* Carlisle: Paternoster.

Francis, L.J., & Village, A. (2021a). Considering the impact of Covid-19 on Christianity *in the UK: Opportunity or challenge? Challenging Religious Issues, 18*, 29-34.

Francis, L. J., & Village, A. (2021b). Shielding, but not shielded: Comparing the experience of the Covid-19 lockdown for Anglican churchgoers aged seventy and over with those under the age of sixty. *Rural Theology, 19*, 31-40.

Francis, L. J., & Village, A. (under review a). The pandemic and the feminisation of the Church? How male and female churchgoers experienced the Church of England's response to Covid-19. *Journal of Beliefs and Values*.

Francis, L. J., & Village, A. (under review b). This blessed sacrament of unity? Holy Communion, the pandemic, and the Church of England. *Journal of Empirical Theology*.

Francis, L. J., Village, A., & Lawson, S. A. (2021). Impact of Covid-19 on fragile churches: Listening to the voices of lay people. *Rural Theology, 19*, 41-47.

Hylson-Smith, K. (1988). *Evangelicals in the Church of England 1734-1984.* Edinburgh: T & T Clark.

Hylson-Smith, K. (1993). *High Churchmanship in the Church of England: From the sixteenth century to the late twentieth century.* Edinburgh: T & T Clark.

Jewell, A. (Ed.) (2001). *Older people and the church.* London: Methodist Publishing House.

Jewell, A. (Ed.) (2004). *Ageing, spirituality and wellbeing.* London: Jessica Kingsley Publications.

Lawson, S.A. (2018). Identifying stressors among rural Church of England clergy with responsibility for three or more churches. *Rural Theology, 16,* 101-111.

Lawson, S.A. (2019). Research report: The marks of the fragile rural church. *Rural Theology, 17*, 51-57.

Lawson, S.A. (2020). Cracked pots: The lived experience of Church of England clergy with responsibility for fragile rural churches. *Rural Theology, 18*, 27-36.

*Mae'r Parchedig Ganon yr Athro Leslie J. Francis yn Athro Crefyddau a Seicoleg yn y Ganolfan Datblygiad Addysgol, Arfarniad ac Ymchwil ym Mhrifysgol Warwick yn Coventry.*

*Mae'r Parchedig Athro Andrew Village yn Athro Diwinyddiaeth Ymarferol ac Empirig yn yr Ysgol Dyniaethau, Crefydd ac Athroniaeth ym Mhrifysgol York St John, yn Efrog.*